# Y BIGWN

CYF. 31 RHIF 8 RHAGFYR 2019 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

# COLLEDION I'R DREF



Mr Bobi Owen - tud 7/8/21



Mr Geraint Robert - tud 6



Capel Brwcws - tud 4



Y Gymdeithas Gymraeg - tud 8

**BOB DIM i fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn yn y Llyfrgell erbyn HANNER DYDD, dydd Gwener, Rhagfyr 13 neu os oes modd, drwy ebost i ybigwn@hotmail.co.uk - Ar Werth Ionawr 11**



Catrin, Ela, Catrin a Cadi



Beca, Iona a Mari



Magi, Gwen a Flora



Gwenno gyda'r poster y bocs



Gosod Blodau - tud 7



Kate Owen Cyd-lynydd Teams4U ac un or tim gyda Gwenno a George yn y Ganolfan Casglu



Yr arddangoswr Nigel Wykes o Telford - tud 7

# Gair gan y Golygydd

Wel dyma ni wedi profi mis anhygoel o chwaraeon a Chymru fach wedi gwneud argraff fawr ar y byd chwaraeon yn ystod y mis diwethaf. I'r rhai ohonoch chi sydd efallai wedi bod yn cuddio dan garreg a heb glywed y newyddion, mae Cymru wedi brwydro drwodd i'r Ewros unwaith eto. Mae'n deimlad ychydig bach yn syreal i ddweud y gwir gan ein bod wedi disgwyl hyd at bumdeg wyth o flynyddoedd cyn cael cymhwyso mewn cystadleuaeth ryngwladol a bellach wedi llwyddo i wneud hynny ddwywaith yn ystod y pedair blynedd diwethaf.

Mae yna ymdeimlad o newid sylweddol a'r garfan ar ei gryfaf y mae wedi bod ers cyfnod hir. Rhaid yn nawr anghofio atgofion hunllefus 1958 ac edrych i'r dyfodol yn hyderus. Ond nid wyf am roi'r holl glod i hogiau'r bel gron - rhaid cofio mae yn Japan yn ystod y misoedd diwethaf y disgleiriodd y tîm Rygbi Rhyngwladol mewn ymgyrch llwyddiannus iawn yng nghystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd.

Wrth i ni fynd drwodd i'r chwarteri a chipio'r pedwerydd safle mae Cymru bellach yn gallu datgan mae hi yw un o'r goreuon yn y byd yn y gamp .Roedd hi'n ffordd arbennig o ffarwelio â Warren Gatland gyda'i amser fel hyfforddwr Cymru wedi dod i ben. Rwyf yn edrych ymlaen at weld os all yr hyfforddwr newydd, Wayne Pivac lenwi esgidiau mawrion Gatland.

Ond yn ôl i'r bêl droed, a ffocws ar yr Ewros ac mae'n rhaid diolch i Aaron Ramsey a'r rôl ysbrydoledig a chwaraeodd yn yr ail gêm. Roedd hi'n dda ei weld o yn ôl yn y garfan yn dilyn cyfnod o anafiad. Cipiodd Ramsey dwy gôl i sicrhau'r fuddugoliaeth dros Hwngari o 2-0. Ar sail ei berfformiad rydym ni bellach drwodd i'r Ewros ar gyfer y gystadleuaeth yn 2020, mae wir yn anrheg Nadolig cynnar!

Cyn y gemau ym mis Chwefror braf oedd gweld chwaraewyr y garfan fel Ramsey, Joe Allen a Ben Davies yn cael eu cyfweld yn y Gymraeg cyn y gêm yn erbyn Azerbaijan. Mae'n rhaid cymeradwyo Cymdeithas Bel droed Cymru am eu hymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y garfan ac yn ystod ymgyrch yr Ewros dros y blynyddoedd diwethaf. Mae tîm pêl droed merched Cymru Jayne Ludlow hefyd yn mynd ati i ddysgu Cymraeg yn ystod eu hymgyrch rhagbrofol ym mhencampwriaeth Ewros Merched UEFA 2021 , hyn er mwyn adeiladu'r ysbryd o fewn y garfan. Mae hyrwyddo defnydd y Gymraeg drwy chwaraeon yn ffordd wych o ysbrydoli pobl i'w ddysgu a'i ddefnyddio o ddydd i ddydd. Mae pêl droed yn gwerthu ar draws y byd ac mae defnyddio'r Gymraeg yn y gêm yn cynyddu apêl a dylanwad yr iaith ar lefel na fyddai byth yn bosib o'r blaen. Ond am y tro mi fydd hi'n ddistaw ar S4C heb yr hen Malcolm Allen yn gweiddi allan ar unrhyw gyfle wrth i'r bel hedfan drwy'r awyr - hyn tan y tro nesaf!

Morgan

Cafodd Dinbych nifer o ergydion yn ddiweddar gan gynnwys colli tri aoedd yn amlwg ym mywyd Cymraeg y dref.
Roedd Geraint Roberts yn unawdydd o fri, yn enillydd cenedlaethol, yn arweinydd canu cynulleidfaol yn ogystal â bod yn flaenor yng Nghapel Pendref.
**Gweler y deyrnged iddo ar dudalen 6.**
Hanesydd lleol a darlithydd athrylithgar oedd Bobi Owen, un a allai gydio yn nychymyg ei gynulleidfa yn y ddwy iaith. Bu'n cyfrannu'n gyson i'r **Bigwn** ers blynyddoedd lawer gyda'i golofn fisol yn gwbl unigryw. Cyflwynodd agweddau o fywyd y dref inni na welech gyfeiriad atynt yn unman arall.
Ychydig cyn ei farwolaeth cysylltodd â ni gan ddweud y dymunai roi gorau i gyfrannu'n fisol, ond byddai'n ceisio cyfrannu colofn ddwywaith neu dair y flwyddyn. Un fel yna oedd Bobi Owen. Doedd dim byd yn ormod o drafferth ganddo.Wnaeth o erioed anghofio'i gefndir na throi'i gefn ar ei wreiddiau.
**Gweler y deyrnged iddo ar dudalen 7/8/21.**
Gwraig ddiwylliedig a gwybodus iawn oedd Beti Lloyd, ac un a oedd yn amlwg ym mywyd crefyddol y dref – yn organyddes a diacones yn Lôn Swan.
Roedd gwreiddiau yn bwysig iawn iddi hithau, a balch oedd hi o ddweud mai yn Ne Cymru yr oedd rheini.
Mawr fydd y bwlch ar eu holau.

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**- Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Ceredig Gwynn (815701)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
01745812570@uwclub.net
ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

Ariennir gan
Llywodraeth Cymru

## BAG Y BIGWN

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth**

| | |
|---|---|
| Megan Williams, Groeswen | £10.00 |
| Iwan a Gwenan Ellis | £10.00 |

**Diolch am eich cefnogaeth**

## Golygydd Mis Ionawr: Angharad Rhys

## Dyddiadur

**Nos Sadwrn, Ionawr 25ain. 2020**
Gig/Noson Bryn Fôn
Yn Neuadd y Dref,
Dinbych.
Tocynnau: £15 neu £18
wrth y drws.

# Y Capeli

## CAPEL BRWCWS.

Dydd Sul, Hydref 20fed agorwyd yr Ysgol Sul gan Gwilym Williams. Croesawyd y Parch. Nesta M. Davies atom y prynhawn. Bryan Roberts oedd yr organydd.
Bore Sul Hydref 27ain cynhaliwyd Oedfa'r Fro, dan ofal y Parch. Andras Iago, yng Nghapel y Dyffryn.
Ar y Sul cyntaf o fis Tachwedd Rhianwen Williams agorodd yr Ysgol Sul. Dilwyn Jones oedd yn pregethu yn y prynhawn. Carolyn Thomas oedd wrth yr organ.
Anfonwn ein dymuniadau gorau at Eifion Williams yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty.
Yn yr Ysgol Sul, Tachwedd 10fed bu i Iona Roberts a'r merched Mari a Beca agor wrth roi cefndir Sul y Cofio. Bu'r plant wrthi yn brysur yn paratoi bocsys ar gyfer T4U yr elusen sy'n newid bywydau plant difreintiedig Dwyrain Ewrop. Cyflwynwyd tystysgrifau i Arthur, Flora a Henry am eu gwaith yn "Picnic yn y Parc", Llanrhaeadr.
Yn yr hwyr cawsom Oedfa Gymun dan arweiniad y Parch. Andras Iago yng Nghapel y Fron.
Cydymdeimlwn a Gwilym ac Edna Williams a'r teulu yn dilyn marwolaeth chwaer Gwilym.
Dymuniadau gorau i Nia Hughes sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.
Agorwyd yr Ysgol Sul, Tachwedd 17eg gan Elin Jones a'r merched Magi a Gwen.
Cennad y prynhawn oedd y Parch. Eric Greene. Eleanor Roberts oedd yr organyddes.
Diolch i Lis Edwards am fynd a 27 bocs o Gapel Brwcws a 12 bocs o Gapel y Fron i ganolfan gasglu T4U yn Llandrillo yn Rhos. Aeth Rhian Williams, George a Gwenno i roi help llaw. Mae ein diolch yn fawr i blant yr Ysgol Sul gan iddynt baratoi cyfanswm o 27 bocs eleni. Bydd plant bach Romania yn ei derbyn yn y misoedd nesaf.
Nos Fercher, Tachwedd 20ed yng Nghymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws cawsom noson ddifyr gyda Erfyl a Carys Williams yn rhoi hanes eu taith i Ganada.

## Capel y Fron

Dydd Sul, Hydref 13eg yr oedd oedfa'r tair Eglwys yn y Capel Mawr dan ofal Y Parch Andras Iago. Dydd Sul, Hydref 20fed, fe wnaeth Mrs Wendy Lloyd Jones estyn croeso i'r Parch Nesta Davies atom a'r organyddes oedd Mrs Iona Edwards. Dydd Sul, Hydref 27ain yr oeddem fel Bro yn cydaddoli yng Nghapel y Dyffryn gyda'n Gweinidog yn gwasanaethu. Bore Sul, Tachwedd 3ydd fe gawsom gwmni Mr Dilwyn Jones gyda Mrs Iona Edwards wrth yr organ. Nos Sul, Tachwedd 10fed, Sul y Cofio, yr oedd ein Gweinidog wedi paratoi ar ein cyfer ac ar nos Sul, Tachwedd 17eg yr oedd y Parch Eric Greene yn gwasanaethu a'r organyddes oedd Iona Edwards.
Llongyfarchiadau i Geraint a Mari Roberts ar enedigaeth eu hŵyr, Twm Rhys.
Diolch yn fawr i bawb wnaeth baratoi Bocsys Esgidiau ar gyfer yr elusen T4U ac i bawb fu yn hael yn rhoi cyfraniadau yn y bocs oedd yn y cyntedd a hefyd arian. Y mae Eleri wedi gallu llenwi 7 bocs ac yr ydym wedi gallu anfon 12 bocs i gyd. Diolch hefyd i Lis Edwards am fynd a nhw i Landrillo gyda bocsys Capel Brwcws.

**Cymdeithas Chwiorydd Y Fron a'r Brwcws**

Pleser oedd cael estyn croeso i Erfyl a Carys Williams, sydd yn aelodau gyda ni yn y Fron, atom i roi hanes eu taith i Ganada. Yr oedd rhai o deulu Carys wedi ymfudo yno yn y flwyddyn 1898, felly yr oedd yn gyfle iddynt gyfarfod â rhai o'r disgynyddion sydd dal i fyw yno. Cawsom weld lluniau ar eu hymweliad â'r 'Stampid' sydd yn achlysur mawr iawn a gweld yr holl ddathliadau. Amaethu oedd y teulu ac fe gawsom weld eu heiddo hwythau hefyd. Mi gawson fynd wedyn ar eu taith o dalaith Alberta i lawr i Vancover a gweld golygfeydd bendigedig o'r mynyddoedd y 'Rockies', y llynnoedd a'r anifeiliaid gwyllt. Yr oedd llawer o'r lluniau wedi cael eu tynnu tra yr oeddynt yn teithio ar y Canadian PacificRailway. Yr oedd y defosiwn ar gyfer dechrau'r cyfarfod wedi ei baratoi gan Pamela Lloyd, gyda Carys Jones a Nancy Brierley yn gofalu am y baned a bisged. Talwyd y diolchiadau i bawb gan Gaynor Prew.

## Y Capel Mawr a Seion

Cawsom gwmni'r Parch. Nesta Davies ar gyfer yr oedfa hwyrol ar Hydref 20fed. Croesawyd hi gan Mr Gwilym Luke Jones, llywydd y mis. Mrs Catrin Warrren oedd wrth yr offeryn.
Ar gyfer yr oedfa hwyrol ar Dachwedd 3ydd Mr Dilwyn Jones oedd y cennad, Mrs Catrin Warren oedd wrth yr offeryn, a chroesawyd Mr Jones gan Mr Ifor John Jones, llywydd y mis.



Garej Ffowndri
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur
01745 812482



PyBJ
GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf
*Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau*
Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion
Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332
e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk



# Cinio Dolig Capel Pendref



Ceri, Margaret, Sally a Janet



Mary, Sian, Parch Cledwyn Parry a Cledwyn



Mrs Rees, Selwyn, Elfed a Medwyn



Silvia a Gwyn



Shelia ac Heulwen



Teulu Lowri a Jorge Fernandes yn y bedydd




Cynhaliwyd bedydd yn capel Pendref, bedyddiwyd Tomos Miguel, mab Lowri a Jorge Fernandes. Roedd yr oedfa dan ofal y Parchedig Ddr Jennie Hurd.

TE YN Y GRUG

**Tŷ Te a Delicatessen**
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
deli@teynygrug.co.uk

**01745 816576**

# Geraint William Roberts



Ganed Geraint ar fferm Cae Forgan, Carmel, ger Caernarfon, yn fab i Hywel a Blodwen Roberts. Roedd yn un o naw o blant – chwe merch a thri mab. Mynychodd Ysgol Gynradd Carmel ac Ysgol Penfforddelen.

Yn ddiweddarach, symudodd y teulu i Lanwnda i fferm Cefn Coch. Ar ôl gadael yr ysgol, bu yn gweithio gyda'i dad ar y fferm. Godro llaw a dosbarthu llefrith i bentrefi cyfagos gyda cheffyl a chert oedd ei waith ar y fferm.

Cartref ysbrydol y teulu oedd Capel Salem, Tŷ'n Lôn, lle bu ei dad yn codi canu ac yn flaenor. Mae'n amlwg bod yr aelwyd yn aelwyd grefyddol a cherddorol. Egwyddorion oedd i fod yn sylfaen i Geraint drwy gydol ei fywyd.

Roedd wrth ei fodd allan yn yr awyr iach. Tra allan yn gweithio ar y tir, sylwodd ar gân yr adar a hyn a'i ysbrydolodd i watwar cân pob math o adar. Roedd yn benigamp ar hyn fel gall llawer o'i ffrindiau a'i gydnabod dystio gan iddynt gael eu diddanu ganddo mewn cyngherddau a nosweithiau llawen.

Wedi iddo golli ei dad yn 1955, daliodd ati i ffermio am beth amser cyn cael swydd fel gwas sifil yn Rhuthun. Yno cyfarfu â Beti a phriodi ym 1960. Ymgartrefodd y ddau yn Ninbych a magu tri o blant. Siân, Gareth a Dewi. A nhw oedd cannwyll ei lygaid.

Wedi symud i Ddinbych, ymaelododd Geraint a Beti yma yng Nghapel Pendref. Bu Geraint yn aelod ffyddlon ac ymroddgar o'r capel am bron i drigan o flynyddoedd. Ac fel ei dad, roedd Geraint yntau yn codi canu yn y capel. Bu hefyd yn flaenor, yn athro ysgol Sul ac yn drysorydd. Aelod amhrisiadwy o'r capel yma.

Roedd yn ei elfen tra'n canu ac yn selog iawn yn cystadlu mewn eisteddfodau lleol a Chenedlaethol drwy gydol ei oes. Cafodd gryn lwyddiant gan gynnwys cipio'r wobr gyntaf am ganu emyn i rai dros 60 oed. Yn wir, honnodd Alwyn Humphreys, un o'r beirniaid, mai pinacl yr eisteddfod iddo ef oedd clywed Geraint yn canu gyda'i lais bâs-bariton swynol. Roedd wedi ei drwytho mewn cerddoriaeth ac yn dilyn y gystadleuaeth, fe'i clywid yn trafod – yn gwbl feistrolgar - hanfodion canu gyda sylwebyddion eraill yn stiwdio S4C.

Gyda'i ddiddordeb yn y capel, ei arddio, ei dŷ gwydr, ei gorau a'i ganu, roedd bywyd Geriant yn llawn ac yn ddiddorol. Bu'n unawdydd gwadd i Gôr Meibion Dinbych ac ar ben ei ddigon yn cynnal cyngherddau efo nhw. Bu'n aelod ffyddlon hefyd o Gôr Gwalia dan arweiniad Rhys Jones.



Pan ddes yma yn weinidog nôl yn 1973, braf iawn fu ailgysylltu â Geraint a'r teulu a minnau wedi ei adnabod ers dyddiau ein hieuenctid yng Nghaernarfon. Bu'n gyfaill triw a chymwynasgar i mi drwy gydol fy ngweinidogaeth ac eto pan ddychwelais fel aelod ac uwchrif dros ugain mlynedd yn ôl.

Un o fy atgofion cynharaf i o Geraint oedd ei weld yn y gynulleidfa yn y capel yn fachgen 15 oed a finnau'n pregethu fy mhregeth cyntaf wedi imi ddychwelyd o'r RAF. Pregethu oeddwn i yn Nhŷ Lôn. A hon oedd fy mhregeth fel ymgeisydd i'r weinidogaeth.

Pan gawsom sgwrs am yr achlysur flynyddoedd lawer yn ddiweddarach, dywedodd Geraint wrthyf bod testun y bregeth wedi creu cryn argraff arno. Adroddodd yr adnod: "Canys nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist: oblegid gallu Duw yw hi er iachawdwriaeth i bob un a'r sydd yn credu" o lythyr Paul at y Rhufeiniaid. A wyddoch chi, mae'r geiriau yma yn nodweddu'r ffordd y gwnaeth Geraint fyw ei fywyd fel Cristion ffyddlon a balch. Bu geiriau Paul yn lewyrch i'w lwybr trwy gydol ei fywyd.

Roedd Geraint yn Wesla drwyddo draw, ond doedd o ddim yn gul yn ei enwadaeth. Byddai'n mynychu eglwysi pob enwad pan fyddai'r achlysur yn codi. Cristion oedd Geraint. Cristion da. "Da was. Da a ffyddlon."

"Craig o Ganwr" oedd y pennawd amdano yn Y Bigwn; hyn yn adlais o'r emyn "Craig yr oesoedd" ddaeth â buddugoliaeth iddo yn yr Eisteddfod. Ac mi roedd Geraint yn graig i'w deulu, i'w gymuned ac i'w gapel. Mawr fydd y bwlch ar ei ôl ac estynnaf fy nghydymdeimlad at Beti, Siân, Gareth a Dewi; ei chwaer Gwenllian a'i frawd Ieuan;aelodau eraill ei deulu a'i gyfeillion oll.

**Y Parch. Cledwyn Parry**



"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"

## Teyrnged Robert Morris (Bobi) Owen.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth brawychus o sydyn Bobi Owen.

Estynwn ein cydymdeimlad a'i frawd John, ei chwaer yng nghyfraith Bessie, gyda'i chwaer Margaret a'i gwr Geoff a'r plant, Andrew, Alison ac Elaine, a gyda Moyra, gweddw ei frawd Dei a'r plant, Gwenda, Haydn a Nia. Estynwn ein cydymdeimlad hefyd gyda Gaynor sydd wedi bod yn ffrind cywir a gofalus i Bobi am flynyddoedd.

Un o deulu Morris Owen y Glo oedd Bobi, wedi ei eni a'i fagu yn stryd Henllan, ac yn ymfalchio yn hynny.

Deuthum i'w adnabod pan oedd y ddau ohonom yn ddisgyblion yn y 'County School'. Aeth Bobi ymlaen i wneud cwrs addysg yng Ngholeg Caerfyrddin ac yna treulio'r ddwy flynedd orfodol yn y Llŷ Awyr. Yn dilyn cyfnod yn athro yn Lerpwl a Dinbych cafodd ei ddyrchafu yn Brifathro yn Minera, Wrecsam yna ym Mhwllygrawys, Dinbych. Treuliodd y blynyddoedd olaf o'i yrfa yn Brifathro Ysgol Heulfre, Dinbych.

Un o blant y dre oedd Bobi ac yn ymfalchio yn hynny. Roedd ei gyfraniad, a'i holl gynnyrch llenyddol, ynghlwm wrth Dinbych. Roedd ganddo wybodaeth drylwyr iawn am bobol a phethe'r dref fel oedd yn amlwg yn ei gyfraniadau cyson yn y Bigwn. Mae ei lyfryn, 'Pobl a Phethe Dimbech', yn un gwerth cael gafael ynddo a'i ddarllen. Cymerai ddiddordeb mawr yn holl weithgareddau diwylliannol Dinbych, gan gynnwys y Gymdeithas Gymraeg a Chymdeithas Hanes Dinbych a'r Cylch. Bu hefyd yn Is-Lywydd Cymdeithas y Llŷ Awyr ac yn uchel ei barch yn y fan honno. Am ei holl gyfraniadau anrhydeddwyd ef yn Fwrdeisiwr tref Dinbych yn y flwyddyn 2008. Anrhydeddwyd ef gan Brifysgol Bangor ac yr oedd hefyd yn aelod o Orsedd Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

Roedd Bobi yn siaradwr cyhoeddus arbennig ac yn gallu diddori cynulleidfa yn rhwydd iawn, a hynny heb unrhyw nodiadau. Roedd cynnwys ei ddarlithoedd ganddo ar flaenau ei fysedd fel petai. Mae llawer Cymdeithas ar hyd a lled y Dyffryn ac ym mhentrefi Hiraethog wedi elwa ar ei barodrwydd i ddod i'w Cymdeithas, a hynny bob amser yn ddi-dâl.

Cymerai ddiddordeb mewn chwareuon, yn cynnwys criced, pel droed, golff a hefyd snwcer a billiards. Roedd wedi profi ei hun yn chwareuwr annodd ei guro yn snwcer.

Ergyd drom i Bobi oedd colli ei wraig Rachel tua ugain mlynedd yn ôl. Merch annwyl iawn oedd wedi meistroli'r Gymraeg ar ôl priodi.

Diddordeb mawr Bobi oedd ei gasgliad o lyfrau, dogfenni hanesyddol a llythyrau pobl oedd wedi gwneud cyfraniad o bwys mewn gwahanol feusydd.


Yr hyn sydd efallai ddim mor wybyddus i lawer oedd ei ysbryd cymwynasgar. Gwn am nifer o enghreifftiau lle bu'n ofalus iawn o rai oedd angen cymorth.

Stori roedd ef yn hoffi adrodd oedd honno amdano yn mynd i gartref ei Daid, Morris Owen, yn gynnar ar fore Sul, er mwyn cael gafael ar 'The Young Soldier, sef cynnyrch y 'Salvation Army'. Fel dilyniant i hynny bu'n gefnogwr brwd a chyson iddynt ar hyd ei oes.

Bedyddiwr oedd Bobi. Bob nos byddai'n darllen tudalen o emynau yn llyfr emynau'r Bedyddwyr, a hefyd ddarlleniadau dyddiol Llyfr Gweddi'r Eglwys. Mae'n wir i ddweud ei fod yn rhoi mynegiant i'w ffydd trwy y ffordd yr oedd yn delio â phawb.

Bydd bwlch mawr iawn ar ei ôl yn Ninbych a bydd ei gyfeillion agos yn teimlo'r golled yn fawr.

Tom Williams.



## Clwb Gosod Blodau

Roedd ein cyfarfod agored yn Neuadd y Dref ac roedd cynulleidfa dda yno a chroesawodd Felicity Cooksay bawb i'r achlysur. Yr arddangoswr oedd Nigel Wykes o Telford a'i thema oedd "Ein hysbrydoli ar gyfer y Nadolig".

Yn gyntaf gwnaeth dorch o flodau seithliw (Hydrangea) a'u chwistrellu a gliter coch, yna trangwls a rhuban gwyrdd - rhywbeth i'w roi ar y drws. Yr ail osodiad oedd blocyn gyda chynhwysydd arno. Yna rhoed rhedyn, moch coed ac amrywiaeth o wyrddni cyn ychwanegu Tegeirianau gwyrdd hyfryd, Rhosod cochion a chelyn brith a'u rhoi ar y llwyfan gyda gosodiad arall i gyd fynd ag o. Hyfryd! Lluniwyd y trydydd un trwy ddefnyddio cynhwysydd a thusw ynddo a phlât arian, deiliach llwydwyn o gwmpas canwyllbrennau gwydr tal, Ffarwel Haf corad gwynion am yn ail a Gerberas gwynion, hefyd o gwmpas y canwyllbrennau. Effeithiol iawn. Cylch o diwbiau o liw copr gyda sbrigau eucolipta, gyda choesau pefriog coch ymhob un, Rhosod oren, sbrigau Athelmeria ac aeron coch ddefnyddiwyd i greu'r pedwerydd gosodiad. Syml iawn. Cylchoedd o wahanol faint wedi eu gosod i gynllun gan ychwanegu sbrigau coch, oren, glas a melyn llachar yn union fel arddangosfa tan gwyllt. Roedd yn brydferth a llawn hud. Defnyddiwyd ffrâm llun ar gyfer y gosodiad yma gyda chynhwysydd wedi ei osod mewn un cornel, deiliach wedi eu chwistrellu a lliw arian a blodau Euthuriums coch gyda Siôn Corn ynddo. Pan roddwyd o ar y llwyfan roedd llun arall wedi ei greu hefyd. Hyfryd iawn. Crochan fawr ddefnyddiwyd i greu'r gosodiad olaf dailpren llawryf (Laurel) ac amrywiaethau o ddeiliach, sbrigau coch ac Anastasia gwyrdd, Ffarwel Haf, Carnasiwns coch a chelyn brith. Gosodiad Nadoligaidd arbennig. Doris Roberts gynigiodd y diolchiadau ac roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr. Ni fydd arddangosfa ym mis Rhagfyr ond byddwn yn cyfarfod i fwynhau ein cinio Nadolig.

Margherita Jones

(Lluniau ar dudalen 2 gan Eleanor Roberts)

# Teyrnged i Bobi

*Mi wna i ofyn i Bobi* neu *Gofynnwch i Bobi Owen* - faint o weithiau dan ni wedi clywed neu ddweud y geiriau hyn? Os oedd rhywun eisiau gwybod unrhyw ffaith am dref Dinbych neu, yn enwedig, am bobl Dinbych, doedd dim ond un lle i droi a, bob tro, roedd Bobi yn gwybod yr ateb ac yn hael tu hwnt yn rhannu o'i wybodaeth rhyfeddol. Yr ydym wedi colli addysgwr uchel iawn ei barch, Cymro i'r carn, bonheddwr a chyfaill da dros ben, ond hefyd, pan fu farw Bobi collwyd trysor amhrisiadwy o wybodaeth. Mae marwolaeth Bobi wedi gadael bwlch enfawr yn ein bywydau, bwlch nad oes modd byth ei lenwi.

Ganwyd Robert Morris Owen (Bobi) yn rhif 18 Stryd Henllan ar 21 Tachwedd 1930, yr hynaf o blant Morris a Jane Owen. Cafodd ei addysg uwchradd yn Ysgol y Sir, Dinbych cyn symud ymlaen i Goleg y Drindod, Caerfyrddin. Yn ôl Bobi ei hun, aeth i'r Drindod i astudio'r Gymraeg ond buan y sylweddolodd nad oedd yn deall fawr ddim o Gymraeg Caerfyrddin a newidiodd ei gwrs o'r Gymraeg i Hanes. Ar ôl gorffen yn y coleg, aeth ymlaen i fod yn athro yn Lerpwl ac yn Ninbych cyn cael ei benodi'n bennaeth yr ysgol gynradd yn y Mwynglawdd (Minera) ger Wrecsam, Gorffennodd ei yrfa mewn addysg ffurfiol fel pennaeth Ysgol Heulfre yn ôl yn ei dref enedigol ac ysbrydolwyd cannoedd o blant ganddo i ymddiddori mewn hanes lleol.

Yr ydym yn ffodus iawn bod Bobi wedi cadw llwythi o wybodaeth pwysig tu hwnt mewn ffeiliau trefnus yn ei stydi yn 1, Dalar Wen. Cyhoeddoedd nifer o lyfrau a'r mwyaf poblogaidd mae'n debyg yw'r tair cyfrol o hen luniau o Ddinbych, pob un gyda manylion sydd yn dangos yn amlwg maint gwybodaeth Bobi am ei dref a'i phobl. Yn ogystal a'i lyfrau, ysgrifennodd Bobi erthyglau di-rif i gylchgronau hanes fel cylchgrawn Cymdeithas Hanes Lleol Dinbych, Y Casglwr a Chymdeithas Hanes Sir Ddinbych ac, wrth gwrs, roedd yn golofnydd preswyl yn y Bigwn. Yn ogystal â'i ddawn fel ysgrifennwr, roedd Bobi yn meddu ar ddawn heb ei ail fel siaradwr cyhoeddus ar faterion yn ymwneud â hanes lleol. Dw i wedi bod yn gadeirydd Cymdeithas Hanes Lleol Dinbych ers 12 mlynedd a thrwy gydol y cyfnod hir hwnnw mae Bobi wedi bod yn gefn i mi. Mae Bobi wedi wedi darlithio i'r Gymdeithas bob blwyddyn ers cyn cof a dw i erioed yn cofio ei weld efo unrhyw nodiadau o gwbl - roedd y ffeithiau, yr enwau, y dyddiadau a'r digwyddiadau i gyd ganddo ac roedd yn cofio'r cwbl.

Heblaw am ei gyfraniad sylweddol fel croniclwr a darlithydd, roedd Bobi yn gasglwr heb ei ail ac yn aelod blaenllaw o Gymdeithas Bob Owen, cymdeithas a enwyd ar ôl Bob Owen, Croesor ac nid ar ôl Robert Morris Owen gyda llaw! Dw i'n cofio sgwrsio â Bobi ym mhabell Bob Owen yn y Genedlaethol yn un o steddfodau'r Gogledd pan ofynnodd Bobi i mi a oedd gen i le i rai o'i lyfrau a'i gylchgronau yn ein tŷ ni. *Wel. nag oes, Bob, mae'n ddrwg gen i* atebais i gan awgrymu y dylai dod o hyd i stordy yn rhywle. Roedd Gwynn Mathews yn y babell ac yn dyst i'r sgwrs. *Be dw i angen, felly?* gofynnodd Bobi. *Therapi,* meddai Gwynn, *rydych chi angen therapi Bobi!*

Un o brif drysorau Bobi yw ei gasgliad o lythyrau gwreiddiol gan Gymry amlwg neu yn ymwneud â Dinbych. Talodd swm nid ansylweddol am lythyr yn llawysgrifen Robert Dudley, Iarll Caerlŷr, a hwn oedd y ddogfen y trysorwyd fwyaf gan Bobi yn ei holl gasglaid. Bob hyn a hyn, byddai Bobi yn gofyn i mi wneud ymchwil i hanes ysgrifenwyr rhai o'i lythyrau. Byddai bob amser yn rhyfeddu pan fyddwn yn adrodd yn ôl iddo gwybodaeth yr oeddwn wedi hel oddi ar y we. Roedd Bobi yn ddyn galluog tu hwnt, ond roedd technoleg a'r rhyngrwyd yn ei lorio bob tro. Doedd o ddim yn deall y dechnoleg fodern a doedd ganddo ddim awydd dysgu amdani chwaith, yn enwedig pan fod eraill yn medru gweud y gwaith drosto! Y fi oedd yn gyfrifol am sicrhau bod inc ganddo ar gyfer ei brintar a ddefnyddiwyd ganddo i lungopio yn unig. Weithiau, byddai'n ffonio a dweud nad oedd y peiriant yn gweithio, a byddwn yn dweud yr un geiriau bob tro - *Bobi, rhaid i chi roi'r swits ymlaen wrth y plwg!*

Cafodd Bobi ei anrhydeddu am ei gyfraniad i hanes lleol Dinbych gan Yr Orsedd, gan Gyngor Tref Dinbych a gan Brifysgol Bangor a doedd neb yn haeddu'r anrhydeddau hyn yn fwy na Bobi Owen.

Collodd Bobi ei annwyl wraig, Rachel, chwarter canrif yn ôl ond roedd ganddo lu o ffrindiau. Bob bore Sadwrn, roedd criw o ddynion yn cyfarfod dan y Bylciau a mynd am baned i'r Fforwm cyn symud i gaffi Morrisons yn ddiweddarach, cyfeillion oes fel JD Williams, Tom Williams a'r diweddar Meurig Voyle. Byddai Bobi yn hoff iawn o gwmni Mel Williams, ei gyfaill o Gymdeithas Bob Owen a threuliodd oriau difyr yng nghwmni Peter a Glenys Thomas, Clwyd ac Anwen, Gwyneth a Craig a Jois a minnau a llawer o gyfeillion eraill, ond, yn ddi-os, ei gyfaill agosaf dros yr ugain mlynedd diwethaf oedd Gaynor a wnaeth gymaint drosto.

Yn ôl dymuniad Bobi, bydd y rhan fwyaf o'i gasgliadau yn mynd i'r Llyfrgell Genedlaethol, i Archifau Sir Ddinbych, i Archifau Cymunedol Dinbych ac i Amgueddfa Dinbych. Yr ydym yn cydymdeimlo â'i deulu a'i holl gyfeillion agos. Mae cyfnod wedi dod i ben yn hanes Dinbych ond bydd atgofion melys o Bobi yn aros yn y cof am amser hir eto.

Richard Snelson

Daniel Morris
CIGYDD LLEOL
01745 812585
info@dmorrisbutchers.co.uk
www.dmorrisbutchers.co.uk
124 Stryd y Dyffryn, Dinbych, LL16 3BS

## Cymdeithas Gymraeg Dinbych

Ar Nos Wener, Tachwedd 1af, cafwyd noson arbennig iawn hefo'r Dr Prydwen Elfed-Owens yn sgwrsio am Y Fonesig Ruth Herbert Lewis gyda Myron Lloyd a Ieuan ap Sion yn cynorthwyo. Dilwyn Jones oedd yn cyflwyno a diolch a Jois a Richard Snelson yn gwneud y baned. Llun tudalen flaen

# CINIO GOFALAETH BRO DINBYCH

Yr ydym yn cyfarfod ar ail ddydd Gwener yn y mis yn Ysgoldy'r Capel Mawr. Ym mis Tachwedd fe gawsom fwynhau ein cinio Nadolig wedi ei baratoi gan Iona a Caryl Jones Y Granar. Rydym yn diolch yn fawr i'r ddwy ac hefyd i Cheryl a Wayne Williams, Wendy a Dafydd Lloyd Jones, Angharad Rhys, Andras Iago a Ros sydd yn gweini ac yn helpu yn y gegin.

Tro aelodau Capel y Dyffryn, sydd yn mynychu'r cinio pob mis, oedd dewis y wraig wadd sef Ann Jones Evans, aelod yn y Dyffryn. Cawsom hanes diddorol y Porthmyn ganddi. Cyflwynwyd Ann gan Olga Evans. Talwyd y diolchiadau gan Margaret Evans.










**Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru**

**DBP**
**Home Improvements N.Wales**

**Tŷ DBP**
**Stad Ddiwydiannol Colomendy**
**Dinbych.**
**Ffôn: Mike Hargraves ar 01745 818849**
**Symudol: 07778752822**

**Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.**




**Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.**

**Ffenestri U-PVC, Unedau wedi'u selio, Drysau, Ystafelloedd Gwydr, Portshys, Cynnyrch Roofline, Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.**

# Y Cymdeithasau



## Cymdeithas Hanes Lleol Dinbych

'Daeareg Dyffryn Clwyd' oedd testun sgwrs y siaradwr gwadd, Dr. Wyn Hughes o Lanbedr Dyffryn Clwyd ac o Lansannan yn wreiddiol. Mae'n ddaearegwrsydd wedi gweithio ar Ynysoedd Solomon sydd i'r gogledd o Awstraliaac yn ddiweddar ef oedd prif wyddonydd ar ochr micropaleontoleg gyda chwmni olew yn Saudi Arabia.Mae'n ddarlithydd ym Mhrifysgolion Birmingham ac Urbino yn yr Eidal ac yn Athro ym Mhrifysgol Brenin Fahd yn Saudi Arabia. Hefyd mae'n chwarae'r pibau mewn grwp cerddorol gan chwarae mewn twmpathau lleol.

Soniodd ein gwestai fod creigiau o'r cyfnodau cynharaf sef Cambrian, Odovician, Silurian, Devonian,Carboniferous a Permian i'w canfod yn Nyffryn Clwyd.

Dyma engreifftiau:-

1.Mynydd Cricor – Ordovician (carreg glai/ shale)

2.Penycloddiau - Silurian (carreg glai/shale)

3.Wal wrth ochr y ffordd wrth Llanfwrog – Silurian (carreg laid/mudstone)

4.Galltegfa i'r gorllewin o Lanfwrog – Carboniferous (carreg goch)

5.Castell Rhuthun- Carboniferous ( carreg galch)

Hefyd, mae cliwiau o bresenoldeb tywodfaen (coch) mewn enwau strydoedd yn yr ardal megis Lôn Goch, Dinbych ac Erw Goch, Rhuthun a gwelwn y garreg goch yn rhan o Eglwys Gatholig Llanfwrog a Chastell Rhuthun a beth am Ysgol Frongoch yn Ninbych?

Rydym yn gyfarwydd â'r Sant Andreas Fault sy'n ymestyn drwy California ac yn achosi daeargrynfeydd fel yr un yn 1906 ond faint ohonom sydd wedi clywed am y Llanelidan Fault yn ne Dyffryn Clwyd? Does dim byd peryglus yn perthyn i hon!!!

Cyfeiriodd ein gwestai at y daearegwr William 'Strata' Smith (1769-18) a greodd y map daearegol cyntaf o Gymru a Lloegr yn 1828 – dipyn o gamp ar y pryd!

Hefyd cawsom hanes taith y myfyriwr ar y pryd, Charles Darwin a'r daearegwr adnabyddus Adam Sedgwick i Ogledd Cymru gan gynnwys Rhuthun yn Nyffryn Clwyd yn 1831.

Roedd ein gwestai hefyd wedi trefnu arddangosfa fechan inni oedd yn cynnwys tameidiau o gerrig o wahanol gyfnodau ac yn rhai lleol o Ddyffryn Clwyd e.e. carreg dywod o'r cyfnod ieuengaf sef Permian.Hefyd roedd llyfrau ar ddaeareg yn rhan o'r arddangosfa.

Llywyddwyd gan Avril Roberts, yr Is-Gadeirydd ac fe dalwyd y diolchiadau gan Stan Lyall.

Cawsom sgwrs addysgiadol gan arbenigwr yn y maes. Efallai y byddwn yn ymddiddori mwy mewn daeareg o hyn ymlaen ac yn chwilio'n lleol am ambell i garreg arbennig!

## Cymdeithas Caledfryn

Jo Arwel Hughes, cyn aelod o Heddlu Gogledd Cymru, oedd gwestai

Mis Hydref a 'Profiadau Personol a Helyntion y Plismon' oedd testun ei sgwrs.

Mae Jo Arwel yn hanu o Dregarth ond wedi ymgartrefu bellach yn yr Wyddgrug. Hyfforddwyd ef yn athro ac fe fu'n dysgu am gyfnod cyn newid gyrfa ac ymuno â Heddlu Gogledd Cymru gan ymddeol yn y flwyddyn 2001 ar ôl bod mewn sawl swydd yn yr Heddlu yn ystod ei yrfa gan gynnwys bod yn rhingyll yn Ninbych, yn hyfforddi plismyn yng Nghwmbran, yn hyfforddi hyfforddwyr plismyn yng Ngholeg yr Heddlu yn Harrogate, yn ôl i Sir y Fflint ac wedyn yn gyfrifol am Adran Atal Troseddau yn y Pencadlys ac yn Brif Arolygydd am y ddeng mlynedd olaf o'i wasanaeth. Dyna amrywiaeth o swyddi mewn ardaloedd gwahanol.

Defnyddiodd hiwmor yn ei waith ar yr adegau hynny pan oedd angen gwneud hynny fel yn y digwyddiad hwnnw pan fu raid iddo ddynwared ci i atal drwgweithredwyr rhag dianc!! Ia, Jo Arwel yn defnyddio dipyn o hiwmor i bwrpas.

Ond mae digwyddiadau a sefyllfaoedd dwys a thrist yn rhan o'r swydd.

Cawsom engreifftiau ohono'n gorfod ymgomio efo drwgweithredwyr rhag ofn i'r sefyllfa waethygu. Dyma Jo'n bod yn greadigol ac yn ofalus ac yn defnyddio'r dulliau gorau i ddatrys problem.

Bu Jo'n gyfrifol am baratoi pamffledi a llyfrynnau dwyieithog pan oedd yn Adran Atal Troseddau yn y Pencadlys er i Gwarchod Cymdogol ymddangos yn Gwrachod Cymdogol cyn ei gywiro!

Llywyddwyd gan Gwyrfai Jones, cydweithiwr Jo Arwel yn Heddlu Gogledd Cymru ac fe dalwyd y diolchiadau gan Gwyrfai.

Croesawyd i'n mysg aelod newydd sef Ednyfed Williams sydd wedi ymgartrefu yn y dref bellach ar ôl symud o Ddiserth.

Cafwyd noson o chwerthin braf a sgwrs oedd yn dangos difrifoldeb swydd aelod o'r Heddlu yn ogystal â dangos yr ochr mwy doniol.



Gwyrfair Jones a Jo Arwel Hughes

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar

Diolch i David Roberts, Amatur Radio sy'n ymwelydd cyson â'r Amgueddfa, a gyflwynodd ddwy ddarlith i ni yn ddiweddar, un ar fyr rybudd oherwydd amgylchiadau annisgwyl. 'Stori'r Haul' oedd testun ei ddarlith gyntaf a dechreuodd trwy sôn am bwysigrwydd yr haul i bobl trwy hanes. Yn yr Hen Aifft, er enghraifft, roedd pobl yn addoli'r haul fel duw; galwyd Louis XIV o Ffrainc yn yr ail ganrif ar bymtheg yn 'Frenin Haul' ac mae gan 14 o faneri cenedlaethol lun yr haul arnynt ar hyn o bryd. Soniodd am ddatblygiadau gwyddonol yn astudiaethau'r haul dros y canrifoedd, yn arbennig yng nghyfnod y Dadeni. Sylweddolodd Copernicus mai'r haul oedd canolbwynt cysawd yr haul, ac nid y ddaear fel y credwyd ynghynt. Yn 1608, dyfeisiodd Hans Lipperhey delesgop, ac yn 1609 cynhyrchodd Galileo Galilei ei 'perspective glass' a chael ei garcharu yn ei gartref gan yr 'Inquisition' am wneud. Yn 1661, sefydlodd Brenin Siarl II y Gymdeithas Frenhinol (i Wella Gwybodaeth Naturiol), ac un o'i sylfaenwyr oedd Newton a oedd yn cynnal arbrofion ar olau. Sefydlodd y Brenin Arsyllfa Brenhinol Greenwich hefyd yn 1676 ar gyfer mordwyo. Aeth David ymlaen wedyn i sôn am astudiaethau mwy diweddar ar yr haul a phlanedau eraill, gan gyfeirio at chwiliedyddion solar sy'n tynnu lluniau o'r haul wrth fynd heibio – mae rhai ohonyn nhw yn dal i fod mewn orbit. Mae telesgop gofod Hubble wedi dangos lleoliad y ddaear a chysawd yr haul yn ein galaeth ni – mae'r ddaear yn yr ardal drigiadwy sy'n cael ei galw yn ardal 'goldilocks'. Gorffennwyd y ddarlith gyda sesiwn fywiog iawn o gwestiynau, oedd yn dangos gwybodaeth eang a diddordeb y gynulleidfa yn y maes.



David Roberts

"Edau ar draws y cefnfor, y cebl Trawsiwerydd cyntaf" oedd testun ail ddarlith David, pan roddodd grynodeb i ni o'r ymdrechion i gysylltu de-orllewin Iwerddon â dwyrain Canada trwy'r telegraff. Fredric Newton Gisbourne oedd y cyntaf i gychwyn ar y gwaith trwy osod cebl o St. John's i Halifax yn ne-ddwyrain Canada yn 1852. Yn 1857 dan nawdd Cyrus West Field, dechreuwyd arbrofi ar Gefnfor yr Iwerydd. Yn y ddwy ymgais gyntaf, anfonwyd dwy long yn cario milltiroedd o gebl yr un, i gyfarfod yng nghanol y cefnfor a dechreuwyd gollwng y cebl i'r môr wrth iddynt deithio nôl i'w porthladdoedd, ond methiant fu. Yn 1858 llwyddwyd i osod y cebl yn ei le, ac anfonodd Brehnines Fictoria neges at Arlywydd UDA a derbyn ateb, ond torrodd y cebl yn fuan wedyn. Thomas Brassey noddodd y bedwaredd ymgais yn 1865, pan ddefnyddiwyd un llong yn unig, ond roedd nam ar y cebl hwnnw hefyd. Yn 1866 cynhyrchwyd cebl newydd a hwnnw oedd y "cebl Trawsiwerydd cyntaf" a alluogodd negeseuon i gael eu hanfon o Iwerddon i Ganada ac yn ôl. Cyrus West Field oedd yn gyfrifol am yrru'r maen i'r wal trwy ei ddyfalbarhad dros y blynyddoedd, ac erbyn ei farwolaeth roedd 10 cebl ar draws yr Iwerydd yn cario 'traffig' cynyddol.



David a Martyn

Croeso i bawb i'n **cyfres ddarlithiau** am 7.00 o'r gloch nos Wener yn yr Amgueddfa:

Ar Ragfyr 13eg, bydd David Crawford yn cyflwyno "Noson o Gerdyn Prawf y BBC a'r gerddoriaeth".

Noson y Curadur yw Ionawr 17eg, a bydd David Crawford yn siarad am "Y Transistor".

Ar Chwefror 21ain, bydd John Barr yn siarad am "Adeiladu Twnel Conwy".

Ar Fawrth 20fed, bydd Dr. Hywel Watkin yn cyflwyno Darlith Flynyddol David Edward Hughes, ac yn siarad am "Humphrey Llwyd y Cartograffwr o Foxhall".

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Y Bigwn! Diolch i chi am eich cefnogaeth gydol y flwyddyn.





Yn More Crefftau fis Tachwedd, bu Carole yn dangos sut mae addurno poteli a gosod golau tu mewn iddyn nhw. Yn y llun cyntaf, mae Imogen, Ann, Tomos ac Eva wrthi yn ddiwyd. Yn yr ail lun, maen nhw'n arddangos eu poteli nhw, a rhai Hannah a Katie hefyd. Mae 'na le i un neu ddau arall i ymuno â ni ar y Boreau Crefftau hyn ar ddydd Sadwrn cyntaf y mis, os ydych yn dymuno.


## Atebion Tachwedd 2019

**Ar Draws :**
5. Clwyd
7. Sir Ddinbych
10. Unigol
11. Normaneg
12. Barbeciw
13. Otto
16. Busnesa
18. Cerflun
21. Bale
23. Eclectig
26. Gorllewin
28. Ronald
29. Addfwynder
30. Anthem

**I Lawr :**
1. Gliniadur
2. Addurno
3. Anna
4. Cytew
6. Ysgub
8. Ionawr
9. Glwcos
14. Taf
17. Noa
19. Egluro
20. Meinwe
22. Edwino
24. Cynon
25. Rhondda
27. Llawr



## CROESAIR RHAGFYR 2019



**Ar Draws :**
8. Arafach na charlamwr
9. Arweinydd crefyddol Shiaidd
10. Plentyndod llanc
11. Rhan o esgobaeth
12. Ffordd o ennill gwobr mewn ffair Nadolig?
13. Toriad gwawr
14. Pwytho
16. Un o dair rhodd amserol
18. Ar gyfer drama neu lawdriniaeth
20. Anlwcus
23. Dal pryfaid mân
26. Anfynych
27. Cerddoriaeth heb eiriau
28. Strwythur ariannol gwlad neu ranbarth
29. Elfen rhif 77 yn y tabl cyfnodol

**I Lawr :**
1. Cafodd Moses ddeg o'r rhain
2. Gwleidydd Rhufeinig
3. Addurniad ag edau
4. XC fyddai 2 i lawr yn ei ysgrifennu!
5. Gorchest
6. Defnyddir hon i 14 ar draws
7. Un sy'n darganfod
8. Un piws yw'r band enwocaf
14. Rheolau ieithyddol
15. Nid plant mohonynt
17. Simsan
19. Gair â phwyslais
21. Llestr i ddal diod
22. Rhaglen bel-droed ar S4C
24. Ar ben ei hun
25. Cic sydd werth triphwynt mewn gêm rygbi

MALDWYN WILLIAMS
Ffordd y Rhyl, Dinbych
Ffôn:01745 812542
DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840
GORSAF MOT
GOLCHFA CEIR
GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk





BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377

# Ysgol Twm o'r Nant

Wedi cael seibiant dros yr hanner tymor, mae pob uned wrthi yn brysur yn paratoi at y Nadolig erbyn hyn. Bydd hanes a lluniau o holl fwrlwm y cyngherddau Nadolig yn yr rhifyn nesaf.

Rydym wedi gyrru 70 o focsys i blant sy'n llai ffodus na ni er mwyn iddynt gael anrhegion adeg y Nadolig. Eleni gyrrwyd y bocsys drwy elusen T4U.






Llwythwyd y fan a gyrrwyd ar eu taith hir i weledydd pell. Diolch i bob un a aeth i drafferth i greu bocsys bendigedig.



Ar Fore Sul y cofio, cynrychiolodd dau aelod hynaf o gyngor yr ysgol wasanaeth arbennig wrth yr angel yn nhref Dinbych a gosodwyd torch o babi coch ar ran yr ysgol, i gofio am y pobl a fu farw yn ymladd yn yr rhyfeloedd. Dyma Meilir a Tara o flwyddyn 6 gyda'r dorch.



Rydym yn ffodus iawn o gael gofalwr arbennig yn yr ysgol . Mae Tony Rogerson i'w weld yn brysur bob amser o gwmpas yr ysgol. Mae ei waith caled wedi cael ei gydnabod yn ddiweddar lle cafodd o ei nomineiddio i dderbyn gwobr rhagoriaeth Sir Ddinbych. Cafodd ei ganmol yn uchel yn nghategori Gweithiwr y flwyddyn. Gwych Tony, rydan ni yn ffodus iawn o'ch cael yn gweithio yma yn Ysgol Twm o'r Nant.




Cymerodd yr uned dan 9 ran yn dawnsathon Plant Mewn angen a mwynhau yn fawr.




Yn ystod wythnos gwrth fwlio, fe wnaeth aelodau cyngor yr ysgol wasanaeth arbennig ar bwysigrwydd bod yn garedig i'n gilydd. Braf oedd eich gweld mor hyderus i rannu y negeseuon pwysig i'r ysgol gyfan.




Cynhaliwyd nifer o weithgareddau ar ddiwrnod plant mewn angen yn yr ysgol. Roedd llawer wedi cael dod i'r ysgol yn syth o'r gwely y bore hwnnw gan eu bod yn cael gwisgo eu pyjamas i'r ysgol. Bu plant hynaf yr ysgol yn greu gemau a stondinau i'n ffair fechan. Gwerthwyd llawer o gacenau a chodwyd £686.





Bu timau pel-droed blwyddyn 5 a 6 yn lwyddiannus yn nhwrnament pel droed yr Urdd ac un tim wedi mynd drwodd i rowndiau terfynol Cymru a fydd yn cael ei gynnal yn Aberystwyth yn y gwanwyn. Da iawn i'r tim glas a phob hwyl i chi. Diolch i'r tim melyn am gymryd rhan a chwarae mor dda hefyd.





Bu nifer o'r adran iau yn cynrychioli yr ysgol yn gala nofio yr Urdd yn Rhyl yn ddiweddar. Perfformiodd pawb yn wych a mae llawer iawn ohonynt wedi llwyddo i gyrraedd rowndiau terfynol Cymru i lawr yng Nghaerdydd ym mis Ionawr.



Mae Elis Martin o flwyddyn 6 wedi dod yn bencampwr trawsgwlad ysgolion cynradd drwy Gymru gyfan. Mae o yn redwr cyflym iawn ac yn gallu rhedeg pellteroedd maith. Tipyn o gamp i fachgen mor ifanc. Llongyfarchiadau mawr i ti Elis ac rydym yn falch iawn ohonot fel ysgol am dy lwyddiant arbennig.




Fel rhan o thema Gourmet byd eang, daeth bawb o'r Uned dan 9 i'r ysgol wedi gwisgo mewn gwisgdraddodiadol o wlad arall. Roedd llawer wedi gwisgo I fyny fel pobl o wledydd Ewrop ac ambell un o gyfandir arall hefyd. Cafwyd llawer o weithgareddau blasu bwydydd y gwledydd gwahanol a mwynhaodd y plant y profiadau i gyd.



Da iawn a llongyfarchiadau mawr i'r criw talentog yma o'r adran iau a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Llandyrnog. Edrychwn ymlaen i'ch gweld ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych ym mis Mai hefyd gobeithio.





## Yr Uned dan 5

Mae plant yr Uned dan 5 wedi bod yn mwynhau straeon yr awdur Jill Murphy y tymor yma ac wedi mwynhau gwisgo i fyny a chwarae rôl yn nhŷ Mr a Mrs Tedi ac yn y roced. Dyma Mabli, Elsi a Beca o'r Dosbarth Meithrin yn gwibio i'r lleuad a Cadi, Tomos ac Ella yn nhŷ'r tedis.





Yn ystod wythnos Noson Tân Gwyllt cafodd y plant wersi diogelwch tân yn y dosbarth tu allan cyn mynd ati i gasglu priciau a chynnau tân go iawn er mwyn cynhesu llaeth i wneud siocled poeth. Roedden nhw wrth eu boddau yn mwynhau eu diod wrth eistedd o gwmpas y tân!

Llongyfarchiadau i Mia, Cordelia, Leusa a Loti am gystadlu yn Eisteddfod Llandyrnog. Mae'n braf gweld plant Ysgol Twm o'r Nant yn cefnogi. Llongyfarchiadau hefyd i Ella a Roan am ddod i'r brig am beintio llun o enfys.





Daeth pecyn drwy'r post i blant yr Uned dan 5 yn ddiweddar! Roedd pentwr o lyfrau yn y parsel yn anrheg am ennilll cystadleuaeth cenedlaethol am enwi un o gymeriadau Pori Trwy Stori. Dyma Greta, Efan a Mared yn mwynhau edrych ar y llyfrau.

CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES

Osian Roberts LLB . Gwenllian Huws LLB . Lois Griffiths LLB LLM
29 FFORDD RHUTHUN, DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

Cynghorydd
cyngor sir ddinbych
Mark John Young



Dinbych Isaf
- Annibynnol
S: 07825 912554
www.sirddinbych.gov.uk
E:mark.young@sirddinbych.gov.uk



Yr Uned Dan 7


Rydym wedi bod yn lwcus iawn yn cael dau weithdy arian yn ddiweddaru. Daeth Techniquest Wrecsam atom a cafwyd bore llawn hwyl a sbri yn cael cwblhau gweithgareddau amrywiol.

Diolch hefyd i'r Principality yn Ninbych ac yn arbennig i Mr Mark Wilson am ddod atom i ddarllen stori a chyfrifo arian gyda'r plant.






Cafwyd hwyl a sbri yn y Jambori yn Rhuthun gyda Martin Geraint yn ddiweddar. Roedd y plant wrth eu boddau yn cael canu a dawnsio i ganeuon hen a newydd!




## Canolfan Gerdd William Mathias

I lansio Gŵyl Biano Ryngwladol Cymru 2020 sydd i'w chynnal gan Ganolfan Gerdd William Mathias yn Galeri Caernarfon o'r 1-4 Mai 2020, cynhaliwyd diwrnod piano ym Mhrifysgol Bangor ar y 23ain o Dachwedd. Bwriad y diwrnod oedd rhoi cyfle i bianyddion o bob oedran a chyrhaeddiad i berfformio mewn awyrgylch gyfeillgar a chadarnhaol gan dderbyn adborth gan dri phianydd arbenigol o Gaerdydd a Llundain. Roedd 45 o bianyddion yn cymryd rhan ac roedd pump o ddisgyblion Cangen Dinbych o Ganolfan Gerdd William Mathias yn eu plith. Llongyfarchiadau i Phoebe, Ffion, Deian, Beatrice ac Elin ar eu perfformiadau ac i Deian ar gael ei ddewis yn un o naw pianydd i berfformio mewn cyngerdd uchafbwyntiau ar ddiwedd y diwrnod. Profiad arbennig i bawb.







*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*

**R.W.Roberts a'i Fab**

Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos

Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele

| | |
|---|---|
| Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, | Plas Tirion, Kinmel Avenue, |
| Dinbych, LL16 4RH | Abergele, LL22 7LW |
| Ffôn: 01745 812935 | Ffôn: 01745 827777 |
| Ffacs : 01745 817303 | Ffacs : 01745 827750 |
| E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com | E: rwroberts.abergele@gmail.com |

www.rwrobertsandson.co.uk

Golden Charter Funeral Plans

National SAIF Independent Funeral Directors




## Ysgol Glan Clwyd

Fe drefnwyd bore coffi i staff a'r 6ed dosbarth ar gyfer elusen cancr plant ac fe godwyd £356.69 i'r achos. Diolch i bawb am drefnu.

**Alyssa yn cefnogi'r elusen**

Cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yn y Gadeirlan unwaith eto eleni. Cafwyd eitemau gan unigolion a phartion a chorau o'r ysgol ynghyd a darlleniadau pwrpasol i adeg o'r flwyddyn.



Llio Jones hefo'i gwobr.

**Gwirfoddolwraig y flwyddyn!**

Llongyfarchiadau i Llio Jones, Bl.13 am gael ei dewis fel "Gwirfoddolwraig Y Flwyddyn'' yng Ngwobrau chwaraeon Sir Ddinbych. Mae Llio wedi gwirfoddoli dipyn o oriau i'r cynllun 5x60, boed yn glwb Hoci, gweithgareddau pontio neu gwyl chwaraeon i enwi rhai! Mae hi hefyd yn gwirfoddoli ei hamser fel Llysgenhad Chwaraeon Platinwm dros Gymru, ac yn mynd lawr i Gaerdydd yn aml i gyfarfodydd chwaraeon. Da iawn ti Llio!

**Llongyfarchiadau** mawr i'r 58 o ddisgyblion a redodd yng nghanol y mwd yng nghystadleuaeth Traws Gwlad Sir Ddinbych ar Tachwedd 15fed yn Ysgol Dinas Bran. Dangosodd bob un ohonynt ddyfalbarhâd i'r diwedd.

**Llongyfarchiadau** i Miriam Owen am ennill cadair Eisteddfod Llandyrnog yn ddiweddar.

**Diwrnod Plant mewn Angen**

Cafwyd nifer o bethau eu trefnu yn ystod y dydd, gan gynnwys raffl a paentio glitter ar wynebau. Ond uchafbwynt y dydd oedd 'ocsiwn' o fyfyrwyr bl 13 i'r staff gael eu prynu. Dyma oedd yr olygfa yn yr Hafan amser egwyl. Diolch i Mr Joe Stoneley am fod yn arwerthwr penigamp!

**Cofiwch** am ein Gwasanaeth Nadolig a fydd yn cael ei gynnal yn y Gadeirlan ar Nos Iau, Rhagfyr 19eg am 7.30yh. Croeso cynnes i bawb. Mynediad am ddim, a bydd casgliad yn cael ei wneud tuag at Eisteddfod yr Urdd 2020



**Badminton**

Da iawn i dîm badminton bechgyn bl.7 (Mason, Aron, Aled a Euan) am guro Ysgol Uwchradd Dinbych yn rownd gyntaf Sir Ddinbych, ymlaen i'r nesaf rwan hogiau!

**Tîm peldroed merched**



**Tîm Y Flwyddyn!**

Llongyfarchiadau i tîm pel-droed merched Bl.8a9 (Bl.7a8 llynedd) am guro "Tîm y flwyddyn" yng Ngwobrau chwaraeon Sir Ddinbych, am eu llwyddiant yn cwpan ysgolion Cymru y llynedd. Braf oedd gweld gymaint o'r tîm yno ar y noson i dderbyn y tlws! Da iawn chi ferched!



Mr Alex Jones yn ei siwt Pudsey



Yr Hafan yn llawn ar gyfer yr Ocsiwn.

# Bagiau Ffa a Cheffyl Pren

Dydwi ddim yn un garw am gadw pethau, boed nhw ar bapur neu'n declynnau, ac mae ambell un sy'n gasglwr wrth reddf wedi rhyfeddu fy nghlywed yn d'eud y fath beth.

Ond wrth ddidoli papurach yn ddiweddar, er mawr syndod fe wnes ddod ar draws adroddiad ysgol ar ddiwedd fy nghyfnod yn Ysgol Gynradd Dolbadarn ym 1960.

Yn rhyfeddol ddigon o gofio'r oes, y mae'r adroddiad yn uniaith Gymraeg. Ond, wedi'r cyfan y Cymro pybyr R.E.Jones, Llanrwst, oedd y prifathro, a go brin y byddai o'n derbyn unrhyw beth gwahanol.

Does yna ddim marc o gwbl- allan o ddeg nac o gant- yn agos i'r adroddiad, dim ond sylwadau un neu ddau air gyferbyn â phob pwnc.

Dim syndod felly fod athrawon y dyddiau hynny yn gallu cyflwyno adroddiadaudeirgwaith y flwyddyn ar eu disgyblion!

Doedd yna ddim sôn am baragraffau hirwyntog yn seiliedig ar fanc o sylwadau nad ydy' hyd yn oed yr athrawon druan yn eu deall.

Dim golwg ychwaith o'r gwallau sydd yn codi yn sgîl defnyddio'r arf hwnnw megis, " Gweithiodd **x** yn gydwybodol eleni" neu wrth sôn am ferch, "Mae **o** wedi rhoi o'i orau bob amser."

Na, roedd y sylwadau mewn llawysgrifen hynod o daclus, a oedd yn adlewyrchu cyfnod pan oedd yna bwyslais ar y grefft honno.

"Da" oedd y sylw caredig ar gyfer fy llawysgrifen i. Yn ôl pawb arall mae hi wedi dirywio'n sylweddol dros y blynyddoedd. Byddai "Gwarthus" yn fwy addas y dyddiau hyn.

Ein harferiad ni fel plant pan dderbyniem ein hadroddiadau oedd gofyn i'r naill a'r llall, " Sawl Da Iawn gest ti? Sawl Da gest ti? Gest ti Ardderchog?"

Wel, gyferbyn â Rhifyddeg y cefais i "Ardderchog".

Roeddwn i wrth fy modd gyda'r hyn a elwid yn broblemau fel," Mae hi'n cymryd 3 diwrnod i ddau ddyn dyllu twll, faint gymer hi i 5 dyn dyllu twll o'r un maint?"

Roedd hyn oll cyn i'r hen Jac Codi Baw ddod yn frenin a chwalu'r angen am ddynion i wneud y fath orchwyl.

Fe ges i "Da Iawn" o dan y pennawd Gwaith Llaw/Crefftwaith.Rhyfeddod, yn wir, o gofio fy mod yn berchen ar ddwy law chwith.

Diolch i'r drefn ein bod ni wedi gwneud gwaith corcyn y flwyddyn honno. Dyna un gweithgaredd y gallwn ei wneud.

Fe gefais i"Da" am Gerddoriaeth, a minnau mewn ysgol a fynychais yn flaenorol wedi cael fy nhaflu allan o'r côr am ganu allan o diwn a'm gwahardd rhag chwarae'r triongl yn y band taro!

"Pur dda" a gefais i am Arlunio, a oedd, mae'n debyg, yn gyfystyr â "dead loss" a defnyddio dywediad plant Arfon.

Ond ar waelod yr adroddiad roedd y sylw a oedd yn brifo fwyaf – Ymarfer Corff – "Gweddol Dda".

Y? Gweddol Dda! Sut oedd yr athro yn gallu d'eud hynny?

Doeddem ni erioed wedi cael gêm bêl-droed yn ystod ein gwersi Ymarfer Corff. Wedi cael addewid o gêm ar gae'r clwb lleol sawl gwaith, ond heb fod yn agos ato.

Dim byd mwy cyffrous na thaflu bagiau ffa i'r awyr, gwneud siapiau efo cylch a cheisio neidio dros yr hyn a elwid yn geffyl!

Ac, wrth gwrs, ymateb i'r cyfarwyddiadau, " I'r dde trowch. I'r chwith trowch" wrth sefyll yn y llinellau syth cyn mynd i mewn i'r ysgol peth cyntaf yn ybore, amser chwarae bore, diwedd amser cinio ac amser chwarae p'nawn.

"Gweddol Dda" myn brain i! Dim hyd yn oed, " Mae'i git yn lân a thaclus bob amser."

Rydwi'n rhyfeddu fy mod wedi cadw'r fath adroddiad â'r fath sen ar fy nghymeriad ymhlyg ynddo.

..........................................................

Ac o sôn am y byd addysg, ers blynyddoedd bellach rydwi wedi teimlo y dylai canran llawer uwch o'r marciau mewn arholiad unrhyw iaith fod am y gwaith llafar.

Wedi'r cyfan faint ohonom sydd yn ysgrifennu mewn iaith safonol ar ôl ymadael â'r byd addysg?

Ond beth am y clefyd tecstio, meddech chi?

Dim ond rhai o'r "boomers" yn ein plith sydd yn rhoi pwyslais ar sillafu ac atalnodi yn eu negeseuon testun.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio dulliau eraill i gyflwyno'u negeseuon - emojis a thalfyriadau megis lol.

Rydan ni'n siarad yn amlach o'r hanner, wel y rhan fwyaf ohonom, beth bynnag.

Fe hoffwn i weld yr awdurdodau yng Nghymru yn rhoi hyd at dri chwarter o'r marciau yn yr arholiad Cymraeg TGAU am waith llafar.

Ar hyn o bryd dydy o ddim ond 30%.Dydy hynny ddim hyd yn oed yn draean y marciau, ac y mae hynny yn gywilyddus!

Gallaf eich sicrhau bod gwrando ar ein pobl ifainc yn trafod amrywiaeth o bynciau astrus yn y Gymraeg yn brofiad i'w gofio.

Efallai y byddai yn gam yn y cyfeiriad cywir er mwyn sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050 pe ceid 75% am waith llafaryn yr arholiad hwn.

Byddai yn bendant yn rhoi mwy o statws i'r iaith lafar.

**Stan Lyall**


*"boomers" – pobl a anwyd rhwng 1946 a 1964





# Cornel y Plant

## NADOLIG LLAWEN



Cysylltwch y dotiau
ac wedyn ei liwio

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P | N | C | F | U | L | U | E | T | O | C | J | I | A | D |
| N | G | Y | N | TH | C | D | PH | O | G | E | RH | N | A | T |
| G | O | L | S | A | LL | U | A | I | L | Y | W | G | C | B |
| F | L | G | I | A | U | DD | Y | N | E | W | A | LL | A | N |
| FF | A | A | D | A | O | DD | Y | W | L | CH | W | U | DD | Y |
| C | U | T | H | Y | G | E | L | C | A | R | D | I | A | U |
| U | A | CH | Y | L | C | U | N | G | I | L | O | D | A | N |
| A | NG | E | L | T | U | PH | B | S | O | M | DD | J | D | NG |
| N | G | A | L | NG | H | N | E | B | A | B | A | N | O | D |
| G | A | D | DD | E | E | R | A | T | B | D | C | B | E | DD |
| W | A | G | DD | U | E | P | M | B | LL | CH | N | PH | TH | N |
| J | R | W | E | N | R | F | P | Y | A | N | W | F | I | E |
| M | CH | A | B | T | F | N | W | R | N | B | A | L | O | C |
| P | R | S | C | P | M | N | L | A | E | LL | Y | S | N | A |
| E | U | U | T | Y | N | R | P | RH | M | S | E | C | O | C |
| J | F | P | F | A | U | O | J | D | R | I | E | T | N | H |
| O | I | A | C | W | L | PH | N | E | PH | Y | W | B | Y | W |
| CH | J | H | N | E | D | E | O | C | N | U | H | CH | CH | D |
| R | H | RH | D | U | H | A | Y | TH | C | R | A | C | Y | DD |
| O | Y | I | S | I | M | N | A | I | E | I | R | A | N | F |
| T | W | LL | N | R | O | C | N | O | I | S | N | LL | PH | D |
| L | O | H | D | PH | CH | W | C | A | P | E | L | M | D | E |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| BABAN | TEULU | SIONCORN | TEGAN | SEREN |
| CANNWYLL | CRACYDD | CACEN | CAPEL | LLETY |
| NADOLIG | HEDDWCH | CARW | CLYCHAU | HAPUS |
| COEDEN | TORCH | BUGAIL | SIMNAI | GOLAU |
| GWYLIAU | ADDURN | OEN | HOSAN | DOETHION |
| LLAWENYDD | PRESEB | EIRA | ANRHEG | ASYN |
| ANGEL | CARDIAU | CNAU | UCHELWYDD | BABAN |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | | 2 | | | 9 | 7 | | 4 |
| | 4 | 8 | 2 | | | 1 | 5 | |
| | | 5 | | 1 | | 6 | | |
| 1 | 3 | | | 8 | 7 | 4 | | |
| 9 | | | | | | | | 7 |
| | | 7 | 4 | 5 | | | 6 | 3 |
| | | 3 | | 2 | | 5 | | |
| | 8 | 9 | | | 3 | 2 | 7 | |
| 2 | | 1 | 6 | | | 3 | | 8 |

# Cryfhau tîm tai Grŵp Cynefin

Mae Grŵp Cynefin sy'n gyfrifol am 4000 o dai ledled y gogledd yn cryfhau eu tîm o staff trwy benodi pedwar swyddog newydd o fewn yr Adran Dai.
Mae'r pedwar wedi dechrau ar eu swyddi dros y misoedd diwethaf, ac yn prysur ddod i adnabod, trafod ac ymweld â thenantiaid yn eu hardaloedd.
Daw **Meleri Williams**, 26 o'r Bala yng Ngwynedd; **Awel Morris,** 38 sy'n wreiddiol o Bowys, ac mae **Catrin Lois Roberts**, 32 yn wreiddiol o Drawsfynydd. Pedwerydd swyddog newydd y gymdeithas yw **Rhys Edwards**, 31 oed o'r Bala. Mae Awel, Catrin a Rhys wedi eu penodi yn Swyddogion Tai tra bod Meleri yn Swyddog Lles i'r gymdeithas.
Mae cefndir y pedwar yn gwbl amrywiol, ond dywed y pedwar bod y gallu i weithio i sefydliad sydd ag enw da fel cyflogwr teg i'r 246 o staff yn Grŵp Cynefin, wedi bod yn bwysig iddynt.
"Ro'n i'n hollol ymwybodol bod gan Grŵp Cynefin enw da yn lleol, bod tîm da yn gweithio i'r sefydliad a bod telerau cyflogaeth a gwaith yn dda. Roedd hi hefyd yn bwysig i mi allu gweithio yn lleol trwy gyfrwng y Gymraeg," meddai Catrin Lois Roberts sy'n byw gyda'i theulu ifanc yn Frongoch, ger Y Bala.
"Fel mam i dri phlentyn bach, roedd y cyfle i allu gweithio yn rhan amser yn bwysig iawn hefyd fel bod gen i falans da rhwng bywyd teuluol a bywyd proffesiynol.
"Dwi'n mwynhau'r gwaith yn arw, dwi'n dod i adnabod y tenantiaid a'r ardal dwi'n gweithio ynddi, ac mae'r gallu i fod wrth law i gynnig cyngor neu arweiniad i bobl sy'n wynebu trafferthion neu broblemau yn gwneud y gwaith yn werth chweil.
Cefndir mewn llywodraeth leol oedd gan Catrin, tra bod Meleri Williams wedi graddio mewn seicoleg o Brifysgol Bangor cyn dechrau ar ei swydd fel Seicolegydd Cynorthwyol i blant a phobl ifanc yn ardal Wrecsam.
"Roedd hi'n amser am newid ac roeddwn i'n awyddus i weithio yn nes at adref a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Does dim un diwrnod yr un fath yma," eglura Meleri sy'n gweithio fel Swyddog Lles yn cefnogi tenantiaid sydd angen cymorth gyda'i hincwm neu ddiogelu ei budd-daliadau lles.
"Dwi'n treulio hanner fy amser yn y swyddfa a



Catrin Meleri Awel Swyddogion: **Catrin Lois Roberts, Meleri Williams ac Awel Morris sydd wedi dechrau yn eu swyddi newydd o fewn yr Adran Dai yn Grŵp Cynefin; Catrin ac Awel fel Swyddogion Tai a Meleri yn arbenigo fel Swyddog Lles**



Rhys Edwards Swyddog Tai: **Un o'r swyddogion newydd yn Grŵp Cynefin, Rhys Edwards, sydd wedi newid trywydd gyrfa gan adael ei swydd fel heddwas i fod yn Swyddog Tai Grŵp Cynefin**

hanner fy amser allan yn ymweld â thenantiaid yn eu cartrefi. Mae rhai yn cael trafferthion gyda'i budd-daliadau, rhai yn anhwylus ei iechyd ag eraill ag anableddau sy'n gwneud bywyd yn anodd.
"Dwi'n gallu cynnig cefnogaeth ymarferol iddynt gyda gwaith papur, tynnu asiantaethau eraill i mewn i wella ansawdd bywyd unigolion a'i rhoi ar ben ffordd i herio unrhyw anghysonderau mewn cefnogaeth gan yr Adran Waith a Phensiynau."
Doedd Grŵp Cynefin ddim yn ddieithr i Awel Morris, sydd wedi gweithio i'r gymdeithas dai ers dwy flynedd.
"Gweithio fel Swyddog Cyfathrebu oeddwn i a gwelais y cyfle i ddatblygu fy sgiliau a symud i'r Adran Dai. Dwi'n mwynhau bod yng nghanol pobl, yn sgwrsio efo tenantiaid, yn cynnig cefnogaeth iddynt ac yn teithio amgylch yr ardal yn ymweld â thenantiaid yn eu cartrefi sydd angen cymorth ychwanegol.
"Pobl yw fy niléit i, ac mae'r swydd yma'n ddelfrydol gan mod i yng nghanol pobl yn y gwaith o ddydd i ddydd. Mae'n swydd rhan amser sy'n rhoi'r balans gorau i mi o weithio, ennill cyflog a threulio amser gyda'r teulu."
Newid trywydd gyrfa y mae Rhys Edwards wedi ei wneud, gan ymuno â Grŵp Cynefin wedi cyfnod fel heddwas.
"Barod am her newydd oeddwn i, ac mi welais y swydd yn cael ei hysbysebu ar y we. Wedi cyfnod fel heddwas, a'r newyddion bod plentyn bach ar y ffordd, roedd hi'n amser newid trywydd gyrfa fel bod modd gweithio oriau mwy hyblyg o amgylch y teulu bach.
"Dwi'n gweithio yn ardal Conwy a rhan o Ddinbych, a dwi hefyd yn gyfrifol am denantiaid hŷn Dinbych. Dwi'n mwynhau'r gwaith yn arw, does dim dau ddiwrnod yr un fath. Mae awyrgylch glos deuluol yn Grŵp Cynefin. Mae'r croeso wedi bod yn wresog iawn ac mae hynny'n glod i bawb sy'n gweithio yma."
Yn ôl **Shan Lloyd Williams**, Prif Weithredwr Grŵp Cynefin: "Asgwrn cefn bob sefydliad da ydi ei staff. Rydyn ni'n ymfalchïo yn y ffaith bod gennym dîm ymroddgar, talentog o staff, sy'n anelu'n uchel ac yn cyrraedd safonau. Rydym yn falch o groesawu'r swyddogion newydd ac yn dymuno'r gorau iddynt yn eu swyddi.
"Egwyddor sylfaenol Grŵp Cynefin yn cynnig mwy na thai, a'm cydweithwyr proffesiynol yw'r rhai sy'n gyrru'r gwaith yma yn ei flaen. Diolch o galon i chi am eich gwaith caled a chyson yn cefnogi pobl a chymunedau yn eich gwaith o gartrefu pobl."
Am wybodaeth bellach ynglŷn â swyddi o fewn Grŵp Cynefin, ewch i www.grwpcynefin.org

# *Er Cof Am Bobi Owen*

*Yn ddiweddar daeth un o'n golygyddion ar draws yr erthygl hon o eiddo Bobi Owen ymhlith cynnyrch a gasglwyd o focs Y Bigwn yn y llyfrgell beth amser yn ôl. Cyflwynwn hi yn y rhifyn hwn fel ein teyrnged ni i un a wnaeth gyfraniad nodedig i'n papur bro.*



**Hoff bethau**

Tro yn ôl darllenais erthygl yn 'Y Wawr' dan y teitl, 'Hoff Bethau', gan Elin Llwyd Morgan, hithau'n aelod o gangen Dyffryn Ceiriog o Ferched y Wawr. Mae hi'n sôn yn y lle cyntaf am ei hoff beth, sef darllen - gwell ganddi nofelau na storïau byrion a hyn nid yn fater o fod yn rhinweddol ond mater o reidrwydd. Mae'r teledu hefyd yn mynd a'i bryd, yn enwedig dramâu ditectif a dirgelwch, a chyfresi am wledydd tramor ac y mae hyn weithiau yn ei hysgogi i ymweld â llefydd fel Denmarc a Sweden. Un lle a greodd argraff arbennig arni oedd Ynys Malta. Credai yr un modd a llenyddiaeth bod teithio'n ychwanegu'r meddwl ac yn medru bod yn addysgiadol a difyr. Mae Elin yn cyfaddau hefyd ei bod yn cael mwynhau wrth orweddian gyda llyfr da tra'n torheulo ar y traeth, a hefyd nofio'n hamddenol yn y môr. Felly darllen a theithio sydd ar ben rhestr ei hoff bethau ac yn arbennig pan mae'r ddau weithiau'n ynghlwm gyda'i gilydd. Cyfaddefai fel y mae pethau eraill yn hoffus ganddi hefyd fel celf, a cherdd, a dillad, ond bod angen erthygl arall ganddi i fanylu ar y rhain.

O'm rhan fy hun mae darllen yn uchel iawn hefyd ar y rhestr, yn enwedig darllen i chwilio am neu i gadarnhau gwybodaeth hanesyddol. Mae'r wefr o ddarganfod ffaith newydd sbon ynglŷn ag agwedd o hanes lleol yn gyffrous. Cofiaf fy mrwdfrydedd yn ystod fy arddegau pan ddarllenais mewn hen lyfr nodiadau yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, mai tafarn yr Eagles, yn Ninbych oedd yr adeilad uchaf ar y chwith ar ben Lôn Parc.

Mae gwrando ar siaradwr cyhoeddus rhugl – darlithydd, aelod seneddol neu bregethwr yn mynd i hwyl, yn fy mesmereiddio.

Tra'n myfyrio ar fy hoff bethau fel hyn, sylweddolaf eu bod yn rhy niferus i mi fanylu arnynt felly dyma i chwi'r rhai sydd yn amlwg yn fy mywyd - ymweld â chaffi archfarchnad Morrisons ar fore Sadwrn i gyfarfod a Tom Williams, Emrys Roberts a J D Williams (atgofion hapus am y diweddar Meurig Voyle a Llew Lloyd) ac, wrth fwynhau paned o goffi, trafod pob pwnc dan haul; ymweld â rhywle diarth a chanfod plant ar y stryd yn chwarae'n gwbl naturiol drwy'r Gymraeg; mynd i'r gwely ar noson rewllyd gyda rhywbeth diddorol i ddarllen, y radio ymlaen fel cefndir, a mesur o wisgi Grouse i flas; yr un modd deffro am ddeng munud i saith y bore, ras i'r gegin i baratoi paned o de a rhuthro nôl i'r gwely i'w sipian tra'n gwrando ar newyddion 7; setlo lawr yn gyfforddus ar y soffa i wylio 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol', neu i wrando ar 'Ganiadaeth y Cysegr', a phan na fydd neb arall yn bresennol yn mentro canu 'full blast' gyda nhw; yn annisgwyl yn taro ar ddernyn arian ar y llawr; arogli bara yn crasu neu bacwn yn ffrio; crwydro gerddi hardd 'Yr Ystrad' yn gwbl hamddenol ar ddiwrnod braf tra'n mwynhau glasiad o win; pan oeddwn yn athro (flynyddoedd yn ôl) yn darllen gwaith creadigol plentyn a hwnnw mewn llawysgrifen daclus; gwylio catrawd o warchodfilwyr Cymreig yn ymdeithio; clywed am rywun cyffredin ei amgylchiadau yn llwyddo'n academaidd - gallaf fynd ymlaen am hydoedd ond dyw'r gofod ddim yn caniatáu.

Er cadw'r ddysgl yn wastad, mae'n bwysig fy mod yn cyfeirio at fy nghas bethau hefyd - timau Rygbi a Phêl droed Cymru yn colli gemau a chan fy mod yn gollwr mor wael, yn gorfod diffodd y radio neu'r teledu; bwydydd fel cyrri neu sbageti; disbyddwr swnllyd beic modur yn rhuo heibio; corff merch ddeniadol wedi ei orchuddio gan datŵau; gwalltiau bechgyn a merched wedi eu lliwio'n wyrdd, pinc, melyn a phob lliw llachar dan haul; methu a dod o hyd i rywbeth o achos fy mlerwch fy hunan; cael y bai am rywbeth heb fod yn gyfrifol; dim ond clywed y gair 'Brexit'; arddegwyr yn rhwygo tyllau ym mhengliniau'u trowsusau er bod yn ffasiynol; darllen am droseddwyr gyda chyffuriau - cynhyrchwyr neu ddelwyr - wedi eu cael yn euog yn derbyn dedfryd ohiriedig; rhagrith o unrhyw fath ac yn waeth na dim, ein hiaith a'n diwylliant annwyl yn cael cam neu beth am dost wedi ei losgi neu sbwriel yn cael ei daflu'n fwriadol? Wel dyna i chi fath o gyffesiad – beth amdanoch chi?

R M (Bobi) Owen


MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor
CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones



Jones & Graham
45 Stryd y Dyffryn
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3AH
CYFRIFWYR AC YMGYNGHORWYR BUSNES
Cyfarfod cyntaf yn rhad ac am ddim
Pob gwasanaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg
01745 816321 office@jonesandgraham.co.uk

# Adroddiad Eisteddfod Gadeiriol

**Nos wener 15 Tachwedd, cynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus dros ben eto eleni gyda'r beirniaid yn canmol y safon uchel iawn y cystadlu ar lwyfan ac yn y cystadlaethau gwaith cartref – gyda bron i 400 o ymgeision yn yr adrannau arlunio, graffeg cyfrifiadurol a llenyddiaeth. Bu oddeutu 80 o ymgeision gan blant a phobl ifanc yn cystadlu yn frwd ar y llwyfan. Enillydd y Gadair eleni oedd Miriam Williams, Saron sy'n ddisgybl yn Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy. Roedd y gwaith creadigol hwn o safon uchel yn ôl y beirniad.**

**Eleni, y beirniaid oedd: Ceri Roberts, Henllan (Cerddoriaeth); Menai Williams, Pwllglas (Llenyddiaeth a Llefaru); Nia Davies, Cefn Meiriadog (Arlunio) a'r cyfeilydd oedd Ann Edwards, Prion.**

**Rhaid diolch yn fawr iawn i'r holl ysgolion, athrawon, rhieni, hyfforddwyr a'r cystadleuwyr, a'r tîm o wirfoddolwyr am gyfrannu tuag at lwyddiant yr Eisteddfod eleni eto. Diolch i Hannah Wardle, artist o Drefnant yn wreiddiol am ddylunio ein tlysau ar eu newydd wedd. Diolch hefyd i holl noddwyr yr Eisteddfod; sef Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen, Cyngor Cymuned Llandyrnog, Llais Llandyrnog Voice, Clwb Llyfrau Llandyrnog, Cyngor Plwyfol Llandyrnog, Pwyllgor yr Eglwys a nifer o deuluoedd lleol.**

**I weld yr holl luniau o'r noson, ewch i wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru.**

**LLENYDDIAETH**

Y Gadair (dan 25 oed): **Miriam Williams, Saron**
Blwyddyn 2 ac iau: **Iorwerth Edwards, Ysgol Bro Cinmeirch**
Blwyddyn 3 a 4: **Nest Emlyn, Ysgol Pen Barras**
Blwyddyn 5 a 6: **Eryn Watkin Jones, Ysgol Bro Cinmeirch**
Blwyddyn 7 – 9: **Elinor Griffith, Ysgol Bryn Hyfryd**
Blwyddyn 10 – 21 oed: **Jac Evans, Ysgol Bryn Hyfryd**

**LLENYDDIAETH I DDYSGWYR**

Dysgwyr Blwyddyn 6 ac iau: **Maggie M, Ysgol Gellifor**
Dysgwyr Blwyddyn 7 – 9 : **Thomas Griffiths, Ysgol Bryn Hyfryd**
Dysgwyr Blwyddyn 10 – 21oed: **Dan Smith, Ysgol Bryn Hyfryd**

**LLEFARU**

Blwyddyn Derbyn ac iau: **Leusa, Ysgol Twm o'r Nant**
Blwyddyn 1 a 2: **Mati Nel, Ysgol Twm o'r Nant**
Blwyddyn 3 a 4: **Mabli, Ysgol Pen Barras**
Blwyddyn 5 a 6: **Anna, Ysgol Twm o'r Nant**
Blwyddyn 10 – 21 oed: **Mali**

**LLEFARU I DDYSGWYR**

Blwyddyn 1 a 2: **Demi, Ysgol Bryn Clwyd**
Blwyddyn 3 a 4: **Ethan, Ysgol Gellifor**
Blwyddyn 5 a 6: **Annwen, Ysgol Bryn Clwyd**

**CANU**

Blwyddyn Derbyn ac iau: **Cordelia, Ysgol Twm o'r Nant**
Blwyddyn 1 a 2: **Seren, Yr Eidal**
Blwyddyn 3 a 4: **Beatrice, Ysgol Twm o'r Nant**
Blwyddyn 5 a 6: **Alys Wyn, Ysgol Twm o'r Nant**
Blwyddyn 7 – 9: **Branwen Jones, Ysgol Bryn Hyfryd**
Blwyddyn 6 ac iau Deuawd: **Llio a Mali**
Blwyddyn 6 ac iau Cân Werin: **Nêst, Ysgol Pen Barras**
Blwyddyn 7 – 9 Cân Ysgafn neu Sioe Gerdd: **Beca Evans, Ysgol Bryn Hyfryd**
Blwyddyn 10 i 21 oed Cyflwyniad 5 - 8 munud: **Gwenan, Ysgol Bryn Hyfryd**

**OFFERYNNOL**

Blwyddyn 6 ac iau: **Beatrice, Ysgol Twm o'r Nant**
Blwyddyn 7 – 9: **Branwen, Ysgol Bryn Hyfryd**

**CERDD DANT**

Blwyddyn 3 ac iau: **Mabli, Ysgol Pen Barras**
Blwyddyn 4 – 6: **Nêst, Ysgol Pen Barras**

**ARLUNIO**

Blwyddyn Derbyn ac iau: **Iago Edwards, Ysgol Pen Barras**
Blwyddyn 1 a 2: **Ifan Wood, Ysgol Twm o'r Nant**
Blwyddyn 3 a 4: **Malan Edwards**, **Ysgol Pen Barras**
Blwyddyn 5 a 6: **Johnny W, Ysgol Gellifor**
Blwyddyn 7 – 9: **Elinor Griffith, Ysgol Bryn Hyfryd**
Blwyddyn 10 – 21 oed: **Jac Evans, Ysgol Bryn Hyfryd**

**GRAFFEG CYFRIFIADUROL**

Blwyddyn 2 ac iau: **Steffan Davies, Ysgol Bro Cinmeirch**
Blwyddyn 3 a 4: **Beth Evans, Ysgol Pen Barras**
Blwyddyn 5 a 6: **Joe H, Ysgol Gellifor**
Blwyddyn 7 – 9: **Beca Evans, Ysgol Bryn Hyfryd**
Blwyddyn 10 – 21 oed: **Jac Evans, Ysgol Bryn Hyfryd**











## Diolchiadau


Dymuna Megan, Eirianwen a'r teulu fynegi eu diolch cywiraf am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbynwyd yn eu hiraeth enfawr o golli Mona, oedd yn ferch, chwaer a modryb werthfawr iawn. Diolch o galon am yr holl ymweliadau, galwadau ffôn, rhoddion a chardiau. Diolch hefyd am y rhoddion ariannol tuag at Ambiwlans Awyr Cymru er cof am ein 'hannwyl Mona.

' Nid oes ond atgofion da
Am un o'r enw Mona'
Arwel Emlyn









## Bywlaith – Taith i fyd y Llydaweg

AneirinKaradog(GwasgCarregGwalch, £8.50)

Mae'r teulu hwn newydd ddychwelyd o Lydaw. Ond nid gwyliau haf oedd eu hymweliad. Aeth y Prifardd Aneirin Karadog, Laura ei wraig, Sisial ac Erwaneu plant a Mukti'r ci i fyw am flwyddyn i wlad y tad-cu a'r fam-gu. Byw drwy'r Llydaweg oedd y nod. Dewch i glywed eu hanesion a'u profiadau!




## Diawl Bach Lwcus

Atgofion drwy Ganeuon: Geraint Davies
(Gwasg Carreg Gwalch, £8.50)
'Mae caneuon fel plant,' meddai Geraint Davies (aelod o Hergest, Mynediad am Ddim a grwpiau eraill) – mae gan bob un ei stori. Efallai mai 'Hei, Mistar Urdd' yw ei gân enwocaf – ac mae honno'n llawer mwy na chân plant.
Mae'r gyfrol hon yn casglu ynghyd straeon o Lanymddyfri, Abertawe a'r Borth; yn sôn am ddylanwadau o Merêd i Joan Baez, ac am brofiadau o weithio gyda Grav i fynd â'r 'cyw melyn olaf' i'r coleg.






# Lyfrgell Dinbych


**Coffi a Charolau** – Ymunwch â ni yma yn y Llyfrgell am baned a mins pei a charolau yn cael eu canu gan Gôr Ysgol Pendref fore Llun, 16eg o Ragfyr rhwng 10 - 11.

**Stori a Chrefft Nadolig i blant dan 5 oed** – bore Mawrth, Rhagfyr 17,
10 tan 11. Croeso cynnes.


**Hel Achau** – os oes gennych ddiddordeb olrhain hanes eich teulu, beth am ddod yma i'r llyfrgell, bydd gwirfoddolwr yma i'ch helpu i fynd ar 'Ancestry.com' ar ddydd Llun cyntaf a'r trydydd ymhob mis rhwng 2.30 a 3.30 y.p.

**Clwb Darllen Sgwrs a Sangria** –
Criw o oedolion sy'n cyfarfod i drafod llyfrau Cymraeg. Mae ein cyfarfod nesaf nos Lun, Ionawr 13eg am 7.30 yma yn y Llyfrgell, y llyfrau fyddwn yn drafod fydd Fflur gan Lloyd Jones a Babel gan Ifan Morgan Jones
ac mae copïau a'r gael yma nawr. Cysylltwch â'r Llyfrgell
os am fanylion pellach 01745 816313 / llyfrgell.dinbych@sirddinbych.gov.uk

## Llyfrau Nadolig newydd i blant




Bob Nadolig, mae Mia a'i theulu yn darllen llythyr oddi wrth Taid. Ynddo, mae Taid yn dymuno cael byd gwell i Mia. Mae'n cofio'r hwyl gawson nhw yn yr ardd gyda'r llyffantod a'r pryfed genwair ac yn plannu hadau. Ond mae Taid yn poeni am y pethau hyn. Mae'n poeni eu bod nhw mewn perygl, ac mae eisiau help Mia i ofalu amdanyn nhw.




Dyma drysor o gyfrol liwgar a chwareus i'w mwynhau yn y dyddiau cyn y Nadolig, a hynny ar ffurf odl a llun. Yn ogystal a dangos rhai o elfennau cyfarwydd yr wyl i blant, mae rhai o'r traddodiadau llai cyfarwydd, syml a Chymreig, yn cael eu cyflwyno yma hefyd.





Pen-blwydd Hapus iawn i Guto Lloyd ac Elen Mair a oedd yn 6 oed ar Dachwedd 29ain, 2019. Llawer o gariad, oddi wrth Dad, Mam ac Awen; Nain a Taid Trefnant; Nain a Taid Pwllglas a'r teulu i gydxx

CATalyst Systems - 01745 816611
enquiries@catsystems.co.uk

**Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)**
**Sganwyr llaw - Systemau CCTV**
**Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G**
**Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk**
**Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA**



SJ CYFREITHWYR SwayneJohnson SOLICITORS

Yn cyflwyno Amser i Siarad ....

**Ewyllysiau, Pwerau Atwrneiaeth a Costau Gofal**

NID OES ANGEN ARCHEBU LLE

**Ymunwch â'n harbenigwyr am gyflwyniad addysgiadol rhad ac am ddim ar y materion pwysig hyn gyda'r cyfle i holi ein cyfreithwyr profiadol**

**Neuadd Gymunedol Llys Erw**
**Rhuthun**
*10yb–11yb*
**2il Mai**
4ydd Gorffennaf
**5ed Medi**

**Canolfan Gymunedol Eirianfa**
**Factory Place, Dinbych**
*10yb-11yb*
20fed Mehefin
**18fed Gorffennaf**
15fed Awst
**19eg Medi**

**Canolfan Gymunedol Awelon**
**Ffordd yr Ysgol, Rhuthun**
*10yb–11yb*
6ed Mehefin
**1af Awst**

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag aelod o'n Tîm Cleientiaid Preifat ar **01824 703833 (Rhuthun) neu 01745 818263 (Dinbych)**

**Byddwn yn cynnig gostyngiad unigryw i'r rhai sy'n mynychu**

www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com



**LLONGYFARCHIADAU**

Llongyfarchiadau i Tony Wood o Harriers Dinbych a gynrychiolodd Gogledd Cymru ym Mhencampwriaeth Athletau Traws Gwlad Rhanbarthau Cymru ynAberhonddu yn ddiweddar.

Plaid Cymru | Party of Wales

**Llyr Gruffydd AC**



Am unrhyw gymorth cysylltwch â fy swyddfa:

Llyr Gruffydd AC
Canolfan Fusnes Birch House
Hen Lôn Parcwr
Rhuthun
LL15 1HN
01824 703593
Llyr.Gruffydd@cynulliad.cymru

**Yn gweithio dros y gogledd**

@LlyrGruffydd

**www.llyrgruffydd.cymru**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

**RHYBUDD**

Oherwydd rheolau newydd ynglŷn â phreifatrwydd data personol, rydym yn gwneud rhai newidiadau i'r ffordd mae **Y Bigwn** yn casglu gwybodaeth a newyddion a'u cadw.

**Gofynnwn i ohebwyr, cyfranwyr, clybiau, grwpiau ac ysgolion ddatgan eu bod:**-

wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwr pob plentyn dan 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth anfon pob adroddiad i'r **Bigwn**

wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn dros 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfon pob adroddiad i'r **Bigwn**.

Ni dderbynnir unrhyw newyddion personol/lluniau am blentyn ond oddi wrth riant neu ofalwr y plentyn hwnnw.

**Felly wrth ddanfon eich newyddion neu luniau i'r Bigwn, cofiwch eich bod wedi gwneud yr uchod a chynnwys y datganiad canlynol gyda'ch newyddion a'ch lluniau:**

Rydym yn datgan ein bod wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwyr pob plentyn dan 13 a gynhwysir yn yr adroddiad/lluniau atodedig ar gyfer eu cyhoeddi yn **YBigwn**, yn ogystal â chaniatâd pob unigolyn dros 13 a gynhwysir.

# CLWB RYGBI DINBYCH

Er gwaethaf perfformiad dewr yn erbyn yr ymwelwyr o Fethesda, collodd y Tîm Cyntaf o 22-10 i aros ar waelod Adran 1. Y cefnwr Gruff Roberts sgoriodd holl bwyntiau Dinbych gyda chais, trosiad a chic gosb. Gwrthwynebwyr cyntaf Dinbych ar Gaeau Les Phillips y tymor diwethaf oedd Y Bala, a Dinbych gariodd y dydd o drwch blewyn, gan ennill o 26-25, gyda'r Bala'n methu trosiad gyda chic ola'r gêm. Cafwyd mwy o ddrama eleni pan groesodd Andy Deakin am gais hwyr dan y pyst i adael i Gruff Roberts drosi a sicrhau buddugoliaeth o 23-22. Y capten, Tom Seddon, sgoriodd unig gais arall Dinbych, gyda Gruff Roberts yn cyfrannu 13 pwynt gyda'i gicio cywir.

Yn y pumdegau a'r chwedegau doedd gemau di-gais, neu hyd yn oed di-bwynt, ddim mor anghyffredin â hynny. Ond gêm di-gais gafwyd yn Meifod, gyda COBRA a Dinbych yn cicio pedwar cic gosb yr un, Wil Worthington i'r tîm cartref a Gruff Roberts i Ddinbych yn sicrhau gêm gyfartal 12-12, yn golygu fod Dinbych erbyn hyn yn yr wythfed safle allan o ddeuddeg tîm yn y Gynghrair.

Ar ôl curo Wrecsam gartref o 21-8, symudodd yr Ail Dîm oddi ar waelod Adran 3, gyda chymorth chwaraewyr profiadol fel Roger Clayton, Dafydd Cartwright a'r brodyr John a Jamie Winning yn ail-gychwyn chwarae yn dilyn cyfnodau allan o'r gêm. Cafwyd cais yr un gan Jamie Winning a Gwern Williams Pierce, gydag un trosiad a thri cic gosb gan Tom Evans. Roedd problemau enbyd yn wynebu'r tîm wrth iddyn nhw deithio i Borthaethwy wythnos yn ddiweddarach. Oherwydd y tywydd garw a damwain ar y ffordd, roedd tagfeydd ar yr A55 gyda'r ddwy bont i'r ynys wedi cau am gyfnodau hir. Cychwynodd y gêm yn hwyr gyda nifer o'r chwaraewyr yn eistedd yn eu ceir ar yr A55, ond er hyn cafwyd perfformiad canmoladwy dan yr amgylchiadau, yn profi ymroddiad y bechgyn unwaith yn rhagor. Collwyd gêm hynod gystadleuol o 16-15, gyda Jake Jones, Endaf Waller a Callum Taylor yn sgorio cais yr un i sicrhau pwynt bonws. 10-7 oedd y sgôr i'r tîm cartref yn erbyn yr ymwelwyr o'r Fflint, gyda Richard Hillier yn sgorio cais a Robyn Cartwright yn llwyddo gyda cic gosb a throsiad.

Mae'n debyg mai'r canlyniad mwyaf trawiadol ac arwyddocaol gan holl dimau'r Clwb y tymor hwn oedd buddugoliaeth gampus yr Ail Dîm yn Ail Rownd Tarian Cenedlaethol Undeb Rygbi Cymru. Teithiodd y tîm a nifer o gefnogwyr i lawr i Ger yr Efail (Forgeside) ger Blaenafon ac ennill o 11-7, gyda Robyn Cartwright yn llwyddo gyda dau gic gosb yn yr hanner cyntaf a Dave Roberts yn croesi am gais yn yr ail hanner. POB LWC YN Y ROWND NESAF!

Canlyniadau cymysg gafodd y timau Mini/Iau yn erbyn Bae Colwyn. Gêm gyfartal 5-5 gafodd y Tîm Dan 9, ond collodd y Tîm Dan 13 o 23-14, gyda'r Dan 15 yn ennill o 12-7. Pythefnos yn ddiweddarach, collodd y Dan 13 o 20-10 yn erbyn Abergele, colli hefyd wnaeth y Dan 14 yn erbyn Caergybi o 26-10, ond ennill unwaith eto wnaeth y Dan 15, o 17-14 yn erbyn Caernarfon.

Mae nifer o ddatblygiadau pwysig ar y gweill oddi ar y maes chwarae, ac mae'n debyg mai'r pwysicaf o'r rhain yw'r gwaith ar greu Ardal Hyfforddi mwy defnyddiol na'r un sydd wedi cael ei ddefnyddio dros y blynyddoedd. Cychwynodd y gwaith o ehangu'r ardal i hyd o 100 medr, lefelu, gosod system draenio dŵr newydd ac yna hau hadau glaswellt ar ddechrau mis Medi. Os fydd y tywydd yn caniatáu, y gobaith yw cael defnyddio'r cyfleuster newydd hwn ymhen 12 mis. Y cam nesaf fydd ystyried gosod llifoleadau newydd sbon o gwmpas yr ardal.

Gyda thristwch derbyniwyd y newyddion am farwolaeth un o hoelion wyth y Clwb, sef David Bryn Jones. Roedd Dei Bryn yn un o sefydlwyr Clwb Rygbi Ysbyty Gogledd Cymru ym 1971, a pan ddaeth dau glwb rygbi'r dref ynghyd ym mis Gorffennaf 1993 i ffurfio clwb newydd yn dwyn yr enw Clwb Rygbi Dinbych, fe etholwyd yn un o gyd-Lywyddion y Clwb. Parhaodd yn y swydd ar ei liwt ei hun tan 2004, y cyfnod hiraf i unrhyw unigolyn ymgymryd â'r swydd hyd yn hyn, a bu'n gefnogwr brwd o'r Clwb gweddill ei oes. Bydd y golled yn fawr, ac hoffem fel Clwb gydymdeimlo â'r teulu yn eu galar.

Yn ôl Tegid Phillips, Llywydd presennol y Clwb, "Dyn rygbi go iawn oedd Dei Bryn; un oedd yn credu ac yn sefyll i fyny dros safonau sydd yn gysylltiedig â'r gêm. Hyd yn oed pan fu'n Llywydd y Clwb am dros ddegawd, mi oedd, bob tro, yn fodlon i gyfrannu i unrhyw fath o waith - a hynny gyda hiwmor a gwên ar ei wyneb. Mae ei farwolaeth yn golled fawr i'r gêm o rygbi, yn enwedig yn ei filltir sgwâr."

*John Davies*

Rhai lluniau ar wylod tud 31



Dave Roberts yn croesi am unig gais y gêm yn erbyn Ger yr Efail. (Llun gan Steph Owen.)

SIOP CLWYD

33 STRYD FAWR
DINBYCH
01745 813431



Llyfrau, Cardiau,
Crynoddisgiau
a Chrefftau

## Clwb Pel-droed Dinbych


Mae Tîm Cyntaf Dinbych wedi symud i frig Cynghrair Un Lock Stock Cymru ar ôl tair gêm heb golled. Maent hefyd wedi cadarnhau eu lle ym mhedwaredd rownd Tlws FA Cymru. Daeth y fuddugoliaeth FA o 2-1 ar brynhawn gwlyb a mwdlyd yn Central Park yn erbyn Queens Park FC, diolch i ddwy gôl gan Jake Walker. Roedd diolch mawr hefyd i'r gôl-geidwad Antoni Sarnowski am sawl arbediad penigamp drwy gydol y gêm. Mae'r Tîm nawr yn wynebu trip anodd i Nefyn yn y rownd nesaf wedi i'r tîm o Lŷn guro Llanefydd o 3 -2.

Yn y gêm gynghrair, cafwyd buddugoliaeth o 2-1 oddi cartref yn erbyn Glan Conwy gyda Mark Roberts yn sgorio'r ddwy gôl a Sarnowski unwaith eto yn gwneud arbediadau gwych. Gêm dawelach a gafodd Sarnowski yn y gêm nesaf gartref yn erbyn Llanberis ble enillodd Ddinbych o 5-0 gyda goliau gan Mark Roberts (2), Jake Walker, Dan Clarke a Jake Barratt. Roedd eu gêm olaf ym Mynydd Llandegai ar brynhawn gwlyb ble cafwyd gêm hynod gyffrous. Ar ôl ildio dwy gôl yn yr 20 munud gyntaf, brwydrodd Dinbych yn ôl i arwain 3-2 gyda dwy gôl gan Jake Walker ac un gan Mark Roberts. Wrth i'r gêm gyrraedd ei therfyn, cafodd y tîm cartref eu gwobrwyo gyda chic rydd, a llwyddon nhw i gael y gôl bwysig i'w gwneud hi'n 3-3, er gwaethaf ymdrechion a rhwystredigaeth Dinbych. Cafodd Ail Dîm Dinbych ergyd enfawr hanner ffordd drwy'r mis pan gyhoeddodd yr hyfforddwr, Johnny Roberts ei fod yn camu lawr o'i swydd o ganlyniad i ymrwymiadau gwaith. Dywedodd Nick Hailes, y rheolwr, "Rydyn ni wir yn mynd i fethu Johnny ar ddiwrnodau gêm ac yn ystod ymarferion. Mae o wedi cyfrannu llawer at ddatblygiad y tîm a bydd bob amser lle iddo yn y Clwb os yw'n teimlo fod ganddo amser i ymrwymo rhyw dro unwaith eto." Un gêm gynghrair gafodd yr Ail Dîm yn ystod y mis, sef buddugoliaeth 5-1 dros Ail Dîm Bae Cinmel gyda goliau gan Luke Farley (2), Stu Vernon, Andy Thomas a Josh Griffiths. Cafodd yr Ail Dîm eu cryfhau'r noson honno wrth i bump o chwaraewyr y Tîm Cyntaf ymuno gyda nhw gan nad oedd ganddynt gêm y penwythnos hwnnw. Yng Nghwpan Her Tân Gwyllt Lockstock, teithiodd yr Ail Dîm i Lanrug gan adael yn enillwyr o 2-1 gyda Les Brophy a Josh Griffiths yn sgorio'r goliau. Rhaid canmol hefyd Conor Jones a wirfoddolodd i fod yn gôl geidwad ar fyr rybudd yn dilyn Dafydd Evans, y gôl geidwad rheolaidd yn methu chwarae y diwrnod hwnnw.

Mae tîm Denbigh Development yn parhau i wneud cynnydd gyda'u chwaraewyr ifanc wrth iddynt gael gêm gyfartal 2-2 yn erbyn Llandudno Amateurs ac yna buddugoliaeth 3-2 yn erbyn Machno United. Dan arweinyddiaeth Craig Morris a Dan Whitfield maent wedi codi i'r 7fed safle yng Nghynghrair Dyffryn Clwyd a Chonwy. Mae'r Clwb yn ddyledus iawn i Miles Todd a Jordan Wynne o 360 Groundcare sydd wedi helpu gyda gwaith cynnal a chadw'r cae yn Central Park. Yn dilyn sawl wythnos o law trwm, mae'r cae mewn cyflwr da ac rydym yn hynod ddiolchgar iddynt am eu gwaith.



Jake Walker yn dathlu ar ôl sgorio ei ail gôl yn erbyn Queens Park.




Dan Clarke gyda'i berfformiadau arbennig i'r Tîm Cyntaf y tymor hwn.

**Hysbysebion**

| | |
|---|---|
| 4cm x 4cm | £3.00 |
| 9cm x 4cm | £6.00 |
| 9cm x 7cm | £10.00 |
| ¼ tudalen | £15.00 |
| ½ tudalen | £25.00 |
| Tudalen Llawn | £50.00 |


**Glyn Evans Autoclinic**
**Atgyweirio Ceir**

**Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA**



*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141

repairs@evansautoclinic.com

## Bore o Ribidirew gyda Deian a Loli
















## Clwb Rygbi

Dei Bryn Jones

isod 1
Y Maes Ymarfer Newydd

isod 2
Yr Ail Dîm yn Ger yr Efail.





# Sul y Cofio



Gareth, Rev Cannon Pauline Walker a Paul Quick



Y Maer Cynghorydd Gaynor Tickle



Bob Rowlands (Dinbych Henoed)



Medwyn Jones (Côr Meibion Dinbych)



Shon Powell, Tegid Phillips ac Arwyn Thomas



Lynne Thomas (Plaid),James Davies (Ceidwadwr)



Medwen



Y Cynghorydd Merick Lloyd Davies - Cadeirydd Sir Ddinbych



